


# **Cynllunio a'r Iaith Gymraeg y ffordd ymlaen**



**Rhagfyr 2005**

**CYNLLUNIO  
A'R IAITH  
GYMRAEG :  
Y Ffordd Ymlaen**

**Rhagfyr, 2005**

# CYNNWYS

## Tudalen

### CRYNODEB

1. – 8.

1.	Rhagarweiniad .....	1
2.	Cefndir cyffredinol .....	1 - 3
3.	Cyd-destun ar gyfer yr Astudiaeth .....	3
4.	Nodau ac Amcanion yr Astudiaeth .....	4 - 5
5.	Darganfyddiadau Astudiaeth Coleg Prifysgol Llundain .....	5 - 6
6.	Ymchwil bellach.....	6 - 7
7.	Awgrymiadau gan y Grŵp Llywio i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol.....	7
8.	Argymhellion gan y Grŵp Llywio i Lywodraeth Cynulliad Cymru .....	8

### NODYN TRAFOD AR YR IAITH GYMRAEG

9. – 14.

1.	Pwrpas .....	9
2.	Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol y Gymuned.....	9 - 10
3.	Cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'r Gwead Cymdeithasol .....	10
4.	Ystyriaeth mewn Cynlluniau Datblygu... ..	11 - 13
5.	Rheoli Datblygu .....	13 - 14
6.	Arwyddion a Hysbysebion .....	14

### ATODIADAU

15. – 68.

Map 1	Dosbarthiad y Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru	16
ATODIAD A	Datganiad leithyddol : Sgrinio	17
ATODIAD B	Datganiad leithyddol : Enghreifftiau o wybodaeth a allai fod ei hangen ar gyfer Datganiad leithyddol	18 - 19
ATODIAD C	Asesiad Effaith ar iaith : Asesu effeithiau tebygol datblygiad ar gymuned ac iaith	20 - 37
ATODIAD Ch	Ffynonellau allweddol o wybodaeth bresennol ar yr iaith Gymraeg	38 - 40
ATODIAD D	Polisiau Cynlluniau Datblygu ar yr Iaith Gymraeg	41 - 59
ATODIAD Dd	Enghreifftiau o Achosion Apeliadau Cynllunio	60 - 64
ATODIAD E	Mesurau Lliniaru	65 - 66
ATODIAD F	Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan	67
ATODIAD Ff	Aelodau o'r Grŵp Llywio a'r Is-grŵp Cynllunio	68

# CRYNODEB

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Dyma grynodedb o'r gwaith a wnaed gan gonsortiw m o sefydliadau yn cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith, Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r papur hwn yn grynhoad o gydymdrechion yr holl bartneriaid sydd â budd mewn ennill gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng cynllunio defnydd tir a'r iaith Gymraeg er mwyn hybu lles yr iaith a chymeriad diwylliannol cymunedau lleol. Nid yw'n bolisi gan unrhyw un o'r cyrff sy'n cymryd rhan. Bydd yn cyflwyno:

- Y cefndir cyffredinol;
- Y cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth;
- Nodau ac amcanion yr astudiaeth;
- Trosolwg ar waith yr ymgynghorwyr;
- Casgliadau;
- Argymhellion.

1.2 Dylid darllen y papur hwn ar y cyd â'r prif nodyn trafod (tudalennau 9-14) a'r atodiadau.

## 2. Cefndir cyffredinol

2.1 Yng Nghymru, siaredir yr iaith Gymraeg gan 582,400 o bobl (Cyfrifiad 2001), sef bron i 21% o'r holl boblogaeth. Yn y cymunedau mwy gwledig yng ngogledd orllewin Cymru – siroedd Gwynedd ac Ynys Môn, ac yng ngorllewin Cymru – siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin, siaredir yr iaith gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth. Mae'r iaith Gymraeg hefyd yn cael ei siarad yn feunyddiol mewn nifer o gymunedau eraill ar draws siroedd eraill yng Nghymru.

2.2 Ers dechrau'r 19eg ganrif, mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi bod ar drai. Tra'r oedd bron i hanner cant y cant o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg ym 1901, yr oedd y ganran hon wedi gostwng i lai na 19 y cant ym 1991, er codi mymryn i 21% ym 2001.

2.3 Mae'r dirywiad hwn yn nifer a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg drwy gydol yr ugeinfed ganrif wedi arwain at ddarnio'r ardaloedd 'craidd'. Ym 1961,



cofnododd 279 o gymunedau yng Nghymru (allan o 993 i gyd) fod o leiaf 80% o'u plith yn gallu siarad Cymraeg. Erbyn 2001, dim ond mewn 20 o ardaloedd etholiadol y cyrhaeddwyd y ganran hon er bod gan 37 arall fwy na 70% yn gallu siarad yr iaith. Yn yr ardaloedd craidd hyn, fodd bynnag, mae'r Gymraeg yn iaith fyw a byrlymus a siaredir fel rhan o weithgareddau cymdeithasol, hamdden a busnes ac nid yn unig yn y cartref, y capel a'r ysgol. Yn y cylchoedd hyn, mae'r Gymraeg yn iaith fyw feunyddiol sy'n cael ei siarad, ei chlywed a'i gweld yn y gymuned; mae'n rhan o wead y gymdeithas.

- 2.4 Yn y ddogfen 'Dyfodol Dwyieithog / A Bilingual Future' (2002) mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod y lleihad yn nifer y cadarnleoedd Cymreig yn un o'r bygythiadau mwyaf difrifol i ddyfodol yr iaith. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r bygythiad hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymhell creu cymunedau sy'n economaidd ac yn gymdeithasol gynaliadwy ac yn annog polisiau a phenderfyniadau cynllunio a thai sy'n ystyried cymeriad ieithyddol cymunedau.
- 2.5 Yn y ddogfen Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog (2003), mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu'r targedau canlynol sydd i'w cyflawni erbyn 2011:
- Mae canran y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu o bum pwynt canran o'r ffigur a gafwyd gan y Cyfrifiad ym 2001 (21%)
  - Mae'r dirywiad yn nifer y cymunedau lle siaradir yr iaith Gymraeg gan dros 70% o'r boblogaeth wedi'i atal
  - Mae canran y plant sy'n derbyn addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu
  - Mae canran y teuluoedd lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith sgwrsio / cyfathrebu rhwng oedolion a phlant wedi cynyddu
  - Dylai mwy o wasanaethau gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- 2.6 Ers 1988 (Cylchlythyr 53/88), mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth gynllunio bwysig y dylid ei hystyried wrth lunio polisiau defnydd tir a chyda phenderfynu ceisiadau cynllunio.
- 2.7 Cyflwynir polisi cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) (2002) a rhoddir cyngor technegol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) (Cymru) 20. Mae PPW Cymru yn gofyn i bob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead y gymdeithas. Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o blethiad y

gymuned, mae'n briodol ei hystyried wrth lunio polisïau cynllunio defnydd tir, gan gynnwys ystyried gallu gwahanol ardaloedd a chymunedau i addasu i ddatblygu heb andwyo sefyllfa'r iaith. Mae TAN 20 yn nodi sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth gynhyrchu cynlluniau neu pan yn gwneud penderfyniadau cynllunio, ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei lles.

### **3. Cyd-destun ar gyfer yr Astudiaeth**

- 3.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi cael trafferth cymhwyso'r polisi a'r canllawiau yn PPW Cymru ac yn TAN 20 yng nghyd-destun polisïau cynllun datblygu a rheoli datblygu.
- 3.2 Mae'r Cynllun Datblygu Unedol sydd wedi'i fabwysiadu gan Gyngor Sir Ddinbych (Gorffennaf 2002) yn cymell dull rhagofalus, lle disgwylir i'r datblygwr, lle mae niwed sylweddol yn debygol, gynnwys gwybodaeth ac eglurhad digonol o effeithiau tebygol y datblygiad ar yr iaith Gymraeg a chymeriad diwylliannol yr ardal. Mae Polisi GEN7 yn nodi y bydd y Cyngor yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i roi canllawiau ar sut i fesur niwed sylweddol.
- 3.3 Mewn trafodaethau â Bwrdd yr Iaith yn ystod paratoi a mabwysiadu Cynllun Unedol Sir Ddinbych, yr oedd yn cael ei gydnabod y byddai cynhyrchu'r Canllawiau Atodol yn cymryd cryn amser ac yn golygu asesu a gwaith ymchwil manwl. Tybiwyd hefyd bod angen cyngor technegol mwy manwl ar sut i fesur ac asesu, yn eithaf hyderus, effeithiau datblygu ar yr iaith. Ym 2002, estynnodd Cyngor Sir Ddinbych wahoddiad i bob awdurdod cynllunio lleol, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth y Cynulliad i wneud cyfraniad ariannol ac i weithio â'i gilydd i gyflawni'r gwaith ymchwil hwn.
- 3.4 Mewn ymateb i hyn, cynigiodd 16 o awdurdodau cynllunio lleol, Bwrdd yr Iaith a Llywodraeth y Cynulliad eu cefnogaeth a chodwyd cyfanswm o £86,000 i gyflawni'r gwaith. (Atodiad F).
- 3.5 Ym 2003, sefydlwyd Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau cynllunio lleol, swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai a Bwrdd yr Iaith, a chytunwyd ar friff ar gyfer yr astudiaeth mewn ymgynghoriad â phartneriaid cyllido. Rhoddwyd hysbysiad yn y papurau lleol a chenedlaethol yn gwahodd rhai oedd â diddordeb mewn cyflawni'r Astudiaeth o Effaith ar Iaith. Siomedig fu'r ymateb gan arbenigwyr (ymgyngorwyr a / neu brifysgolion). Yn y diwedd, ystyriwyd mai dim ond dau dendr oedd yn addas ar gyfer y rhestr fer. Yn dilyn eu cyfweld gan y Grŵp Llywio, dyfarnwyd contract yr astudiaeth i Ysgol Gynllunio Bartlett, Coleg Prifysgol Llundain, dan arweiniad Dr Mark Tewdwr-Jones.

## 4. Nodau ac Amcanion yr Astudiaeth

- 4.1 Nod yr ymchwil oedd cynhyrchu methodoleg i fesur effaith ar iaith a fyddai'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i lunio polisïau ystyrllon ac ymarferol i ddiogelu a hybu defnyddio'r iaith Gymraeg ac i'w galluogi i asesu goblygiadau polisïau eu cynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio ar les yr iaith a chymeriad diwylliannol eu cymunedau.
- 4.2 Yr oedd allbynnau disgwylidig yr ymchwil wedi eu nodi yn y Briff fel a ganlyn:
- a) Cynhyrchu pecyn adnoddau *ymarferol* i helpu awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu a ydyw'r iaith yn rhan o *wead cymdeithasol* ardal yr awdurdod fel y cyfeirir ato yn TAN 20, neu beidio. Dylai'r pecyn adnoddau alluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddiweddarau unrhyw ddarganfyddiadau fel a phan fo angen, e.e. Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Unedol.
  - b) Cynhyrchu pecyn adnoddau *ymarferol* i helpu awdurdodau cynllunio lleol i fesur y *rhyng-gysylltiad* rhwng polisïau / cynigion cynllunio defnydd tir yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, a pholisïau cynllunio defnydd tir eraill, e.e. maint, lleoliad, math, camau'r datblygiad, ac yn y blaen. Dylai'r pecyn adnoddau hwn roi gwybodaeth *fesuradwy* i awdurdodau cynllunio lleol am yr effaith y mae polisïau, cynigion a phenderfyniadau cynllunio yn ei gael ar yr iaith Gymraeg. Dylai alluogi'r awdurdodau hyn i baratoi strategaeth ddatblygu ar gyfer Cynllun Datblygu Unedol sy'n ystyried anghenion a buddiannau'r iaith yn llawn. Dylai'r pecyn hefyd gynnwys y gallu i fesur effaith unrhyw ddatblygiadau a gwblhawyd ar yr iaith, e.e. monitro polisïau / penderfyniadau blaenorol.
  - c) Cynhyrchu *Methodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg* gan gynnwys sut i '*brofi niwed dangosadwy*' wrth benderfynu *ceisiadau cynllunio* ac arfarnu effaith cynigion pan yn paratoi'r *cynllun datblygu*. Dylai astudiaeth y Fethodoleg uchod fod yn ddigon safadwy i fod yn gynaliadwy mewn apeliadau cynllunio.
  - ch) Cyflwyno enghreifftiau o achosion ymarferol o effeithiau negyddol a chadarnhaol datblygiadau, drwy ddefnyddio gwahanol enghreifftiau o leoliad, math, maint a chamau datblygu. Dylai hyn gynnwys ystod mor eang â phosibl o ddatblygiadau, e.e. datblygiadau tai bach mewn aneddiadau bach, rhai mwy mewn aneddiadau mwy, diffyg tai fforddiadwy, diffyg tai ar gyfer angen lleol, datblygiadau adwerthu, cyflogaeth, trafnidiaeth a hamdden, ac yn y blaen. Dylid cefnogi'r enghreifftiau hyn gyda thystiolaeth y gellir ei mesur. Gellir hefyd defnyddio enghreifftiau achos o wledydd eraill sydd â ieithoedd lleiafrifoedd lle byddai hyn yn cyfrannu at amcanion yr Astudiaeth.

- d) Creu cronfa ddata yn cynnwys cyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth am yr iaith Gymraeg sy'n berthnasol i faterion cynllunio defnydd tir, gan gynnwys unrhyw faes lle gallai bylchau mewn gwybodaeth fodoli. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch a ydyw'r wybodaeth yn gyhoeddedig neu beidio; sut i gasglu'r wybodaeth; a sut orau i'w diweddarau.
- dd) Creu polisiau 'model' ymarferol ar gyfer Cynllun Datblygu Unedol a'r cyfiawnhad dros ddehongliad lleol.
- e) Creu Canllawiau Cynllunio Atodol 'model' ymarferol ar yr effaith ar yr iaith Gymraeg, gan dalu sylw arbennig i'r math o wybodaeth y byddai awdurdodau cynllunio lleol ei angen gan ddatblygwyr, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol.
- f) Creu cytundebau / amodau cynllunio 'model' ymarferol fel y gellir ymarfer rheolaeth dros ddatblygiadau yn y dyfodol.

## 5. Darganfyddiadau Astudiaeth Coleg Prifysgol Llundain

### 5.1 Cynhyrchodd yr ymgynghorwyr:

- Cyfrol 1: Gwerthusiad Beirniadol a Chefndir Methodolegol
- Cyfrol 2: Asesiad o Effaith ar Iaith

### 5.2 Profodd yr ymchwili i fod yn anodd dros ben gan ei fod yn ymchwilio i rywbeth lle nad oedd modelau ar gael a thrwy fod adnoddau ymchwili gwreiddiol yn brin.

### 5.3 Yr oedd Coleg Prifysgol Llundain yn argymhell proses o Asesu'r Effaith ar yr iaith Gymraeg mewn dwy ran i gynorthwyo gyda llunio polisiau strategol ac i sefydlu effeithiau tebygol unrhyw ddatblygiad newydd:

- a) Pecyn Adnoddau Creu Proffil Ieithyddol, a
- b) Methodoleg ar gyfer Asesiad o Effaith ar Iaith.

### 5.4 Mae prif ddarganfyddiadau / casgliadau yr astudiaeth gan Goleg Prifysgol Llundain fel a ganlyn:

- nid oes unrhyw enghreifftiau ymarferol o Asesiadau Effaith ar Iaith mewn gwledydd eraill
- y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio Pecyn Adnoddau Creu Proffil Ieithyddol wrth ddatblygu polisiau i asesu a ydyw'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y cymunedau yn eu hardal neu beidio. Mae'r pecyn creu proffil yn cynnwys sawl mynegai yng nghyswllt defnyddio a chefnogi'r iaith,



patrymau mudo a thueddiadau o ran nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg mewn cymuned. Dyfeisiwyd y pecyn creu proffil ar gyfer ei ddefnyddio mewn cymunedau gyda mwy na chanran benodol o siaradwyr Cymraeg, a 30% oedd y trothwy arfaethedig.

- Y dylid defnyddio Methodoleg ar gyfer Asesiad o Effaith ar iaith fel bod awdurdodau cynllunio lleol yn gallu asesu effaith debygol unrhyw gynigion datblygu yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd cymunedol. Y pum dimensiwn hwn yw: poblogaeth; ansawdd bywyd; yr economi; seilwaith h.y. gwasanaethau; bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned. Mae'r Fethodoleg yn cynnwys Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol ar sail atebion i gwestiynau yng nghyswllt pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol. Mae'r mynegai yn cynhyrchu sgôr ar gyfer yr effaith ieithyddol.
- mae mesur effaith yn anodd iawn gan fod effeithiau cymdeithasol yn ogystal â rhai ffisegol yn berthnasol, a gall y rhain amrywio o ran maint, parhad, dwyster a'u tueddiad i greu newid cymdeithasol cronus.
- mae angen gwaith pellach i brofi'r fethodoleg – gan gynnwys cymhwyso astudiaethau achos go iawn; creu proffil cymunedol; a chynhyrchu polisïau, amodau ac ymrwymadau model.

## 6. Ymchwil bellach

6.1 Ar ôl ystyried darganfyddiadau Coleg Prifysgol Llundain, teimlai'r Grŵp Llywio y dylai eu gwaith gael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â defnyddwyr. Sefydlwyd Is-Grŵp Cynllunio i ddatblygu'r agweddau ymarferol ar ymchwil Coleg Prifysgol Llundain ac i ystyried pa ganllawiau pellach y gellid eu cynhyrchu ar sail eu gwaith. Arweiniwyd yr Is-Grŵp gan Wasanaethau Cynllunio Cyngor Gwynedd gyda chymorth gan gynghorydd annibynnol.

- Cynhyrchir eu hawgrymiadau allweddol ar ffurf nodyn trafod, gweler para 9-14. Yn gryno, dyma oedd eu hawgrymiadau:
  - Y dylai awdurdodau cynllunio lleol dalu sylw i'w strategaethau cymunedol ac ymgysylltu â'u cymunedau drwy'r Cynllun Gweithredu Cymunedol yn eu Cynllun Datblygu Lleol pan yn paratoi polisïau defnydd tir ieithyddol.
  - Er mwyn creu proffil cychwynol, y dylai'r awdurdodau ddechrau diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn eu hardaloedd, ar sail trothwy o ganfod a allai 25% neu fwy o'r bobl yn ardal y Cyngor Cymuned siarad Cymraeg. Er hynny, mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd penderfynu maint yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif (AIS) drwy'r broses cynllun datblygu, a gallai hyn gynnwys aneddiadau unigol y tu allan i'r ardal a

ddiffinnir gan y trothwy. Byddai'r trothwy arfaethedig o 25%, yn lle'r trothwy o 30% a gynigir gan Goleg Prifysgol Llundain (para 5.4), yn sicrhau parth Ardal Ieithyddol Sensitif cyffiniol yng Nghymru. Gweler Map 1.

- Unwaith y byddai'r ardaloedd ieithyddol sensitif wedi eu diffinio, awgrymir y dylai awdurdodau lleol nodi lle byddai angen i ddatblygwyr ddarparu Datganiad Ieithyddol i fynd gyda'u cynigion mewn ardal ieithyddol sensitif.
- Awgrymir y byddai angen i ddatblygwyr ddarparu, o leiaf, cyfres o feini prawf i gwrdd â gofynion y Datganiad Ieithyddol;
- Awgrymir y byddai Datganiad Ieithyddol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn ddigon i'r awdurdod cynllunio lleol farnu effaith. Fel eithriad i hyn, ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol werthuso'r Datganiad ac asesu bod yr effaith yn ddifrifol andwyol, gallai'r awdurdod ofyn am Asesiad o Effaith ar Iaith. Gallai'r Asesiad hwn gael ei fodelu ar y Fethodoleg ar gyfer Asesu Effaith ar Iaith a gynhyrchwyd gan Goleg Prifysgol Llundain.

## 7. Awgrymiadau gan y Grŵp Llywio i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol

- Dylid ystyried y wybodaeth ymchwil ac awgrymiadau'r Grŵp Llywio yn yr adroddiad hwn a'r nodyn trafod wrth ddatblygu polisiau a chynigion sy'n diogelu a hybu lles yr iaith a'r diwylliant Cymreig;
- Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol hyn (yn enwedig rhai gydag ardaloedd a allai gymhwyso fel Ardaloedd Ieithyddol Sensitif fel a ddiffinnir yn y nodyn trafod) barhau i weithio â'i gilydd a chyda Bwrdd yr Iaith gan rannu gwybodaeth newydd am ddatblygu polisi a phenderfyniadau apêl, yn ogystal ag arferion da;
- Wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Unedol a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol, dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn â phroses y Strategaeth Gymunedol a bod Cynllun Gweithredu Cymunedol y Cynllun Lleol wedi'i strwythuro i gynnwys cymunedau mewn trafodaethau ar les yr iaith Gymraeg;
- Dylid sicrhau bod effaith polisiau yn y cynlluniau datblygu ar les yr iaith a'r diwylliant yn cael ei hadolygu a'i monitro i sicrhau bod polisiau Cynlluniau Unedol na chawsant eu mabwysiadu eto, a rhai a ddrafftwyd ar gyfer Cynlluniau Lleol, yn fwy effeithiol;

- Dylid nodi nad yw'r Asesiad o Effaith ar Iaith (Atodiad C) wedi ei brofi'n drylwyr eto.

## **8. Argymhellion gan y Grŵp Llywio i Lywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Dylid gwerthuso'r syniadau a'r awgrymiadau yn yr adroddiad / nodyn trafod hwn ac ystyried eu goblygiadau i bolisi cynllunio Cymreig yn PPW Cymru a TAN 20, ac mewn unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau cysylltiedig eraill.
- Dylid ystyried a oes angen ymchwil bellach i ysgogi datblygu polisiâu newydd, gan gynnwys adolygu – ar y cyd â Bwrdd yr Iaith – pa mor ddefnyddiol yw ffynonellau data cenedlaethol ar les yr iaith a'r diwylliant Cymreig i bwrpas cynllunio;
- Dylid gwneud yr uchod mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol;
- Dylid parhau i ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio lleol sy'n datblygu polisi lleol yng nghyswllt cynllunio a'r iaith Gymraeg.

# NODYN TRAFOD AR YR IAITH GYMRAEG

## 1. Pwrpas

1.1 Amcan y nodyn trafod yw:

- rhoi canllawiau anffurfiol i awdurdodau cynllunio lleol ar sut y dylent ystyried yr iaith Gymraeg wrth baratoi ac adolygu eu cynlluniau datblygu a phan yn penderfynu ceisiadau cynllunio;
- bod yn sail ar gyfer adolygu'r Nodyn Cyngor Technegol a'r Polisi Cynllunio Cymru a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad;
- argymhell bod y materion a godir yn y papur yn cael eu defnyddio i annog trafodaeth ac ymgynghori ehangach.

1.2 Nid yw'r nodyn trafod hwn yn cynrychioli barn na pholisi'r sefydliadau partner.

1.3 Mae'r nodyn trafod yn awgrymu sut y gallai awdurdodau cynllunio lleol ddehongli polisi a chynghor cenedlaethol presennol a'u hymgorffori yn eu cynlluniau datblygu. Mae'n awgrymu sut i fesur a ydyw'r iaith Gymraeg yn rhan o wead y gymdeithas. Mae'n awgrymu sut y dylid ymgorffori'r iaith Gymraeg yn y gwaith o baratoi ac adolygu'r cynllun datblygu a sut i roi pwysau i'r iaith fel ystyriaeth gynllunio flaenllaw a pherthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio a hysbysebu. Mae'r nodyn trafod yn awgrymu sut y gall awdurdodau ystyried effaith datblygiad ar yr iaith mewn cymuned a phenderfynu a oes angen Asesiad o Effaith ar Iaith mwy trwyadl. Ar gyfer unrhyw ddyraniad neu ddatblygiad defnydd tir penodol, mater i'r awdurdod cynllunio fydd cydbwysu'r gwahanol oblygiadau economaidd-gymdeithasol, a dim ond un o'r rheiny fydd yr iaith Gymraeg, a hynny o fewn cyd-destun y polisiâu cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio eraill o bwys.

## 2. Yr iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol y Gymuned

2.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas a diwylliant Cymru ac fe'i siaredir gan 20.8% o'r boblogaeth. Ceir hefyd nifer helaeth o bobl sydd â rhywfaint o afael ar yr iaith. Mae'n cael ei dysgu'n eang mewn ysgolion ledled

Cymru, ac nid yn unig yn yr ysgolion hynny lle mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu.

- 2.2 Mae'r iaith Gymraeg wedi'i chysylltu'n annatod i blethiad diwylliannol Cymreig cymuned. Mae'n bur amlwg bod y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn arwydd cryf o iechyd ac asbri'r iaith a'r diwylliant Cymreig.
- 2.3 Mewn rhai cymunedau arbennig, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg mor uchel â 88%, ac mewn eraill cyn ised â 6%. Mae tua 89% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg wedi eu geni yng Nghymru. Mae nifer o'r rhai sydd wedi symud i Gymru wedi parchu a chefnogi'r iaith. Dysgodd rai ohonynt yr iaith a, thrwy wneud hynny, maent wedi cyfrannu at lwyddiant parhaus yr iaith yn eu cymunedau.
- 2.4 Mewn rhai ardaloedd, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r iaith wedi dirywio ond, mewn eraill, mae wedi cynyddu. Bydd lles yr iaith i'r dyfodol yn dibynnu ar amryw o wahanol ffactorau, fel addysg, y defnydd a wneir ohoni ym maes busnes, newidiadau demograffig a gweithgareddau cymunedol yn ogystal ag fel sylfaen economaidd gadarn ar gyfer pob cymuned. Er hynny, mae'r system cynllunio defnydd tir mewn sefyllfa i fedru - ac yn wir fe ddylai - ystyried anghenion a buddiannau'r iaith gan gyfrannu, drwy wneud hynny, at ei lles.

### **3. Cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'r Gwead Cymdeithasol**

- 3.1 Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru, dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o wead y gymdeithas a, lle mae hyn yn bod, ei bod yn briodol iddynt ystyried hyn wrth ddatblygu polisiâu defnydd tir.
- 3.2 Yr anhawster yn y gorffennol fu penderfynu faint o bwyslais i'w roi ar faterion iaith o fewn y fframwaith cynllunio defnydd tir, ac a ddylid rhoi mwy o bwyslais mewn cymunedau oedd â'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae'n deg dweud, mwya'n byd y siaredir yr iaith Gymraeg mewn cymuned, mwya'n byd hefyd y mae'r iaith yn rhan o fywyd beunyddiol ac yn rhan annatod o blethiad cymdeithas. Ceir prosiectau iaith parhaus, e.e. Mentrau Iaith, a phrosiectau sy'n chwarae rôl bwysig mewn annog a hybu'r iaith Gymraeg mewn cymunedau yng Nghymru.
- 3.3 Mae'r canllawiau yn TAN 20, cyn belled ag y mae pwyslais ar yr iaith Gymraeg yn y cwestiwn, angen eu diwygio os yw penderfyniadau i gael eu seilio'n ddiogel ar effaith ieithyddol. Y cwestiwn yw pryd a lle y mae angen cael asesiad o effaith ar iaith, ar gyfer pa ddatblygiadau, a sut y dylid ei



baratoi a'i ddadansoddi. Mae'r nodyn trafod hwn yn ceisio ateb rhai o'r cwestiynau hyn.

## 4 Ystyriaeth mewn Cynlluniau Datblygu

- 4.1 Wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y polisi cenedlaethol, gan gynnwys Iaith Pawb a Chynllun Gofodol Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio lleol, yn eu Strategaethau Cymunedol, ystyried y berthynas rhwng polisiau cynllunio ac anghenion cymdeithasol, gan gynnwys eu heffaith debygol ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth. Mae cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cymunedol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi cyfle i'r awdurdodau cynllunio ymgysylltu â chymunedau yn y drafodaeth am yr iaith a'r diwylliant Cymreig. Bydd y prosesau Gwerthuso Cynaliadwyedd sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud y cyfnewidiadau rhwng effaith ar iaith ac ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill yn fwy eglur.
- 4.2 Dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o wead y gymdeithas. I gynorthwyo gyda'r dadansoddiad hwn, y bwriad yw bod awdurdodau cynllunio yn diffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif yn eu hardaloedd ar sail asesu a ydyw 25% neu fwy o'u hardaloedd Cyngor Cymuned yn siarad Gymraeg, yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2001. Bwriedir gosod y trothwy ar y lefel hon am y rhesymau canlynol:-
- Y cyfartalog cenedlaethol ar gyfer siaradwyr Gymraeg yw 20.8%. Dylai'r trothwy adlewyrchu'r cyfartalog cenedlaethol yn agos er mwyn sicrhau y cynhwysir y rhan fwyaf o gymunedau gyda chanran fymryn yn uwch na'r cyfartalog.
  - Mae Iaith Pawb a PPW Cymru yn dweud y dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead y gymdeithas. Mae'n rhesymol ystyried y cymunedau hynny sydd â chanran uwch o siaradwyr Gymraeg na'r cyfartalog cenedlaethol.
  - Mae'r trothwy o 25% a throsodd, yn lle'r trothwy o 30% a argymhellir gan Goleg Prifysgol Llundain, yn creu parth cyffiniol yng Nghymru. (Gweler Map 1).
- 4.3 Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd penderfynu maint yr Ardal Ieithyddol Sensitif. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar Ffiniau Cynghorau Cymuned. Dylid cysylltu'r Ardaloedd Ieithyddol Sensitif i strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd angen i'r awdurdodau ddiffinio'r rhesymeg y tu ôl i osod y Ffiniau Cynghorau Cymuned, drwy ystyried strategaethau cenedlaethol fel Iaith Pawb, Cynllun Gofodol Cymru ac amgylchiadau lleol. Fel arfer, bydd y trothwy o 25% yn ddigon. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lleol lle gallai'r awdurdod cynllunio fod eisiau dynodi ardal o dan y trothwy 25%. Gallai

fod cyfiawnhad dros hyn, er enghraifft, lle mae mentrau lleol i adfywio'r iaith yn bodoli ac yn cael eu cefnogi gan y gymuned leol a'r partneriaid lleol, neu lle mae pentref neu gymuned arbennig o fewn ardal cyngor cymuned fwy sydd angen gwarchodaeth neu anogaeth arbennig. Lle cyfyd sefyllfa o'r fath, dylai'r awdurdod cynllunio lleol nodi'n glir ei gyfiawnhad dros gynnwys ardal cyngor cymuned sydd o dan y trothwy.

- 4.4 Dylai'r awdurdodau cynllunio lleol ddisgrifio cymeriad ieithyddol pob Ardal Ieithyddol Sensitif a nodweddion a phroblemau arbennig yr ardal sydd angen gwarchodaeth ac anogaeth.
- 4.5 Yn bennaf, polisiau a dyraniadau yn ymwneud â thai a chyflogaeth sy'n debygol o gael yr effeithiau economaidd-gymdeithasol mwyaf. Dylid asesu effeithiau defnydd tir unrhyw gynigion tai a chyflogaeth mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif, a'u heffeithiau tymor byr a hir ar yr iaith Gymraeg a chymeriad diwylliannol yr Ardal Ieithyddol Sensitif. Gwyddom fod datblygiadau tai mawr o fath a maint sy'n anghymesur â maint ac anghenion y gymuned leol yn cael effaith andwyol ar iaith a chymeriad diwylliannol Ardaloedd Ieithyddol Sensitif. Mae nifer anghymedrol o breswylwyr di-Gymraeg yn mewnlifo i Ardal Ieithyddol Sensitif yn debygol o danseilio'r cymunedau llai sy'n bennaf Gymraeg eu hiaith gan wneud ymdoddi yn anodd. Ar y llaw arall, mewn cymunedau gwledig llai, efallai fod angen rhywfaint o gyflogaeth a thai ychwanegol o'r math a'r maint iawn i gwrdd ag angen lleol, er mwyn cynnal y cymunedau hynny. Dylai'r twf tebygol fod yn gymesur ag anghenion economaidd-gymdeithasol yr Ardal Ieithyddol Sensitif a'i gallu tebygol i newid dros amser a heb i hynny andwyo'r iaith. Ar gyfer gwneud hyn, bydd Atodiadau B ac C yn helpu'r awdurdodau cynllunio lleol i ystyried yr holl ffactorau dilys sy'n berthnasol i werthusiad llawn.
- 4.6 Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio sicrhau, yn fras, dyraniadau tai i gwrdd â'u targedau tai lleol. Dylid gosod y targedau hyn ar ôl ystyried yr effaith gyffredinol bosibl ar yr iaith Gymraeg. Er enghraifft, os yw ardal yn agored iawn i gynnydd mewn siaradwyr di Gymraeg, dylai'r awdurdod cynllunio lleol adolygu ei dyraniad cyffredinol o dai a phennu lefel sy'n diwallu anghenion cyffredinol cymunedau unigol. Mewn rhai ardaloedd, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol eisiau annog tai fforddiadwy newydd er mwyn cynnig gwahanol fathau o dai i atal allfudo.
- 4.7 Mae angen sylfaen economaidd iach i gynnal cymunedau cynaliadwy. Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol nodi mân gyfleoedd i greu gwaith fel rhan o'i strategaeth economaidd ehangach yn lleol.
- 4.8 Yr hyn sy'n anodd yw nodi pa raddfa ddatblygu sy'n cwrdd â disgwyliadau lleol ac ystyriaethau'r farchnad. Wrth ddod i gasgliad, dylid ystyried cynaliadwyedd tymor hir y datblygiad, nid yn unig yn nhermau amgylcheddol a chymdeithasol, ond hefyd yn ieithyddol. Bydd penderfynu maint a ffiniau Ardaloedd Ieithyddol Sensitif

yn hanfodol bwysig gan y bydd rhai ardaloedd yn gallu addasu'n haws i newid nag eraill.

- 4.9 Drwy ddilyn y cyngor hwn, dylai fod yn bosibl i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos yn glir yn eu datganiadau Cynllun Datblygu sut y maen nhw wedi ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg wrth gynhyrchu'r cynllun. Yn y pen draw, y nod yw creu cymunedau cynaliadwy sy'n cynnal ystod o swyddogaethau a gwasanaethau, ac sy'n briodol i'w maint. Bydd y gwasanaethau ar gael i, ac yn fforddiadwy i'r bobl sy'n rhan o'r gymuned.

## 5. Rheoli Datblygu

- 5.1 Fel rheol, bydd effaith ieithyddol dyraniadau a dynodiadau defnydd tir wedi cael eu hasesu yn y cynllun datblygu. Fodd bynnag, o fewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif diffiniedig, efallai y bydd angen i awdurdodau asesu datblygiad nas ystyriwyd yn ystod paratoi'r cynllun. Mae'r egwyddor hon wedi'i derbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn ei hadroddiad ar Gynllun Unedol Sir Ddinbych (2001). O dan Bolisi GEN 7 yng Nghynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Sir Ddinbych, lle mae niwed sylweddol yn debygol, rhaid i'r datblygwr gynnwys gwybodaeth ac eglurhad digonol o effeithiau tebygol y datblygiad ar yr iaith Gymraeg a chymeriad diwylliannol yr ardal.
- 5.2 Lle mae gan awdurdodau cynllunio lleol bolisi mabwysiedig ar yr iaith Gymraeg, gellir ei ddefnyddio fel sylfaen polisi i'w galluogi i ddiffinio Ardaloedd Ieithyddol Sensitif. Unwaith y diffinnir ac y cyhoeddir yr Ardaloedd hyn gan yr awdurdod cynllunio lleol, bwriedir gofyn i ddatblygwr sydd â chynigion ar gyfer Ardal Ieithyddol Sensitif gyflwyno Datganiad Ieithyddol gyda'r cais os yw'n disgyn o fewn un o'r meini prawf yn 'Atodiad A'.
- 5.3 Ym mhob achos, mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fydd penderfynu a oes angen datganiad neu beidio, gan ddibynnu ar natur a maint y datblygiad a'i effaith ar gymeriad ieithyddol arbennig yr Ardal Ieithyddol Sensitif. Unwaith y sefydlir hyn, bydd yn rhaid i'r datblygwr, o leiaf, ddarparu'r datganiad ar sail gofynion 'Atodiad B' a chyflwyno'r wybodaeth fel rhan o'r cais. Fodd bynnag, mae y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus.
- 5.4 Yn y mwyafrif llethol o achosion, dylai Datganiad Ieithyddol fod yn ddigon. Mewn achos eithriadol, unwaith y bydd datganiad wedi'i werthuso, gall yr Awdurdod Cynllunio benderfynu bod y datblygiad yn debygol o achosi niwed sylweddol neu efallai nad yw'r datganiad yn dod i gasgliad ddigon pendant. Yn yr achosion hyn, bydd angen Asesiad o Effaith ar Iaith. Os gofynnir am Asesiad o'r fath, dylai'r Awdurdod Cynllunio nodi ei resymau dros ofyn amdano'n glir, a pha faterion sydd angen rhoi sylw iddynt mewn Asesiad o Effaith ar Iaith. Gellir ymdebygu'r broses o symud o Ddatganiad Iaith i Asesiad o Effaith ar Iaith i'r broses sgrinio a chwmpasu ar gyfer paratoi Datganiad Amgylcheddol. Y tebyg yw, gyda chynigion datblygu mwy, y bydd Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei baratoi. Gyda chymorth yr awdurdod cynllunio lleol, dylai fod yn bosibl

cwmpasu ardaloedd lle mae angen mwy o wybodaeth, ar sail 'Atodiad C'. Ar ôl cwblhau Asesiad o Effaith ar Iaith, os yw'r awdurdod cynllunio yn penderfynu gwrthod caniatâd cynllunio ar sail Effaith ar Iaith yn unig, dylent fod yn glir ynghylch y canlyniadau tymor hir ac nad oes modd eu lliniaru. Lle mae'n bosibl lliniaru i leihau'r Effaith ar Iaith, dylid ystyried cynnwys Cytundebau Adran 106, ymgymeriadau unochrog ac amodau cynllunio sy'n berthnasol i'r datblygiad.

- 5.5 Mae rhestr o fesurau lliniaru posibl yn Atodiad E. Dim ond rhai o'r mesurau lliniaru posibl yw'r rhain y gellid eu defnyddio lle mae tystiolaeth y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Bydd nifer o'r mesurau lliniaru y gellid gofyn amdanynt yn dod o dan Ganllawiau Cenedlaethol ar Ymrwymadau Cynllunio; bydd eraill yn fwy priodol fel amodau neu ymgymeriadau unochrog.
- 5.6 Ar hyn o bryd, mae unrhyw fesurau lliniaru sydd angen ymrwymiad cynllunio yn cael eu tywys gan gyngor y dylid eu defnyddio lle byddent yn angenrheidiol ac yn berthnasol i gynllunio, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig, yn deg ac yn rhesymol gymesur o ran maint a math â'r datblygiad arfaethedig ac yn rhesymol ym mhob cyswllt arall. Os gofynnir am y mesurau hyn, dylent fod â chysylltiad uniongyrchol â'r caniatâd cynllunio.
- 5.7 Bydd unrhyw gyfleusterau neu gyfraniadau y gofynnir amdanynt ond yn dderbyniol lle mae'r cyfleusterau hynny yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cais datblygu, lle mae'r angen amdanynt yn codi o'i weithrediad a lle maent yn gymesur o ran maint a math. Bydd yn bwysig sicrhau bod yr hyn a ofynnir amdano yn rhesymol. Bydd yn rhaid i unrhyw ofynion sy'n golygu ymrwymiad cynllunio gael eu negodi â'r datblygwr – ni fyddant yn ofynnol.

## **6. Arwyddion a Hysbysebion**


- 6.1 Mae'n bosibl hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy'r broses gynllunio, yn enwedig drwy ganiatáu arwyddion a hysbysebion. Mae diwylliant ac iaith yn agweddau ar fwynder ac mae hysbysebion yn cyfrannu'n weledol at gymeriad gweledol a chymdeithasol ardal. Drwy'r broses gynllunio, dylid hybu arwyddion dwyieithog a gwrthod arwyddion uniaith os ydynt yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd gweledol ac os oes ganddynt oblygiadau i gymeriad cymdeithasol a mwynder ehangach yr ardal. Gellir hefyd annog arwyddion dwyieithog lle nad oes angen caniatâd hysbysebu er mwyn newid a diogelu'r cymeriad ieithyddol. Bydd polisïau priodol yn y cynllun datblygu yn cynorthwyo'r broses hon, ynghyd ag unrhyw fentrau lleol sy'n annog busnesau lleol i godi arwyddion dwyieithog (gall yr uchod olygu bod angen newid y Rheoliadau Hysbysebu 1992 presennol).
- 6.2 O fewn Ardal Ieithyddol Sensitif, dylai'r awdurdod cynllunio lleol fod yn gallu mabwysiadu polisïau sy'n cynnig anogaeth gadarnhaol i arddangos arwyddion dwyieithog. Dylid newid y rheoliadau hysbysebu neu eu drafftio'n gliriach fel bod 'mwynder' yn cynnwys nodweddion diwylliannol gweledol yr ardal.

## RHESTR O ATODIADAU

<b>MAP 1</b>	<b>Dosbarthiad y Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru</b>
<b>ATODIAD A</b>	<b>Datganiad leithyddol : Sgrinio</b>
<b>ATODIAD B</b>	<b>Datganiad leithyddol : Enghreifftiau o wybodaeth a allai fod ei hangen ar gyfer Datganiad leithyddol</b>
<b>ATODIAD C</b>	<b>Asesiad o Effaith ar Iaith :</b>  <b>Asesu effeithiau tebygol datblygiad ar gymuned ac iaith</b>
<b>ATODIAD Ch</b>	<b>Ffynonellau allweddol o wybodaeth bresennol am yr Iaith Gymraeg</b>
<b>ATODIAD D</b>	<b>Polisiâu Cynlluniau Datblygu ar yr Iaith Gymraeg</b>
<b>ATODIAD Dd</b>	<b>Enghreifftiau o Achosion Apeliadau Cynllunio</b>
<b>ATODIAD E</b>	<b>Mesurau Lliniaru</b>
<b>ATODIAD F</b>	<b>Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan</b>
<b>ATODIAD Ff</b>	<b>Aelodau o'r Grŵp Llywio a'r Is-grŵp Cynllunio</b>



## DOSBARTHAD Y SIARADWYR CYMRAEG



## DATGANIAD IEITHYDDOL : SGRINIO

### MEINI PRAWF I'W HYSTYRIED WRTH BENDERFYNU A OES ANGEN CYFLWYNO DATGANIAD IEITHYDDOL GYDA CHAIS O FEWN ARDAL IEITHYDDOL SENSITIF

1. A ydyw'r cais yn cydymffurfio â'r holl bolisiau yn y cynllun datblygu mabwysiedig (lle mae cynllun mabwysiedig wedi'i fabwysiadu neu ei adolygu yn y 5 mlynedd diwethaf)?

Os Ydyw, yna nid oes angen Datganiad leithyddol.

2. A ydyw'r datblygiad yn debygol o newid cymeriad ieithyddol arbennig yr Ardal Ieithyddol Sensitif oherwydd:

- a) ei faint yng nghyswllt anghenion lleol;
- b) y math o ddatblygiad ydyw
- c) cyflymder cyflwyniad y datblygiad

Gallai enghreifftiau o'r rhain gynnwys:-

- Mae'r datblygiad tai, o ran maint a math, yn debygol o ddenu siaradwyr di Gymraeg
- Mae'r datblygiad cyflogaeth yn debygol o arwain at weithwyr yn mewnfudo ar ei gyfer yn y tymor byr a'r tymor hir
- Mae'r datblygiad seilwaith yn debygol o newid patrymau teithio a chynyddu hygyrchedd at gymunedau mwy bregus.

Os mai Ydyw yw'r ateb, neu os na wyddys yr ateb, yna dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol fabwysiadu dull rhagofalus a gofyn am Ddatganiad leithyddol gan y datblygwr.

3. A ydyw'r datblygiad yn debygol o arwain at siaradwyr Cymraeg yn allfudo?

Os mai Ydyw yw'r ateb, yna mae angen Datganiad leithyddol.

## DATGANIAD IEITHYDDOL :

### ENGHREIFFTIAU O WYBODAETH A ALLAI FOD EI HANGEN AR GYFER DATGANIAD IEITHYDDOL

#### 1. Cyflogaeth (gan gynnwys adwerthu)

- 1.1 A ydyw'r datblygiad cyflogaeth yn cwrdd ag anghenion lleol yn bennaf?
- 1.2 A ydyw'r datblygiad yn cydymffurfio â strategaethau lleol a chenedlaethol?
- 1.3 Faint o swyddi fydd yn cael eu creu a faint fydd yn cael eu recriwtio'n lleol?
- 1.4 A ydyw'r sgiliau llafur gofynnol ar gael yn lleol (o fewn yr ardal Teithio i'r Gwaith)?
- 1.5 Ar gyfer datblygiadau twristiaeth, beth yw'r dalgylch disgwylidig?
- 1.6 A oes datblygiadau tebyg eraill gyda chaniatâd cynllunio yn yr ardal?
- 1.7 A ydyw'r datblygiad yn debygol o arwain at fuddsoddiad pellach tebyg?
- 1.8 Lle mae angen hyfforddiant i ddysgu sgiliau newydd i'r gweithlu lleol, a fydd hyn yn cynnwys Hyfforddiant Iaith Gymraeg i'w ddarparu gan y datblygwr?
- 1.9 Sut fydd y cyflogau yn cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal?
- 1.10 A fydd y datblygiad yn cystadlu â neu'n cyd-fynd ag atyniadau twristiaeth presennol?

#### 2. Tai

- 2.1 Beth yw'r pris marchnad disgwylidig ar gyfer y tai a sut y mae hyn yn cymharu ag incwm aelwydydd yn lleol?
- 2.2 A oes datblygiadau tebyg o ran maint wedi eu cwblhau yn y 5 mlynedd diwethaf? Os oes, a ydynt wedi cwrdd ag anghenion lleol yn bennaf?
- 2.3 A ydyw'r datblygiad yn cynnwys elfen briodol o dai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol?
- 2.4 Mewn sawl cam y cyflwynir y datblygiad?
- 2.5 A ydyw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r math o dai, a'r galw am dai, sydd wedi ei ddarogan yn y cynllun datblygu?

- 2.6 Beth oedd cyflymder y twf preswyl yn y gymuned yn y 5 mlynedd diwethaf?
- 2.7 Beth yw canran meddiannaeth pobl leol o dai newydd a gwblhawyd yn y 5 mlynedd diwethaf?

### 3. Addysg

- 3.1 A ydyw'r datblygiad yn debygol o arwain at fod angen mwy o leoedd ysgol?

Os ydyw, a oes digon o le mewn ysgolion lleol, a sut y mae'r datblygiad yn debygol o effeithio ar y patrymau iaith mewn ysgolion lleol?

### 4. Seilwaith

- 4.1 A fyddai'r datblygiad yn gwella hygyrchedd yn sylweddol i'r Ardal leithyddol Sensitif ac yn lleihau amseroedd teithio o drefi cyfagos mwy?

### 5. Cyffredinol

- 5.1 A oes gwasanaethau lleol priodol fel siopau, cyfleusterau preswyl / cymunedol i wasanaethu'r datblygiad?
- 5.2 A fydd y datblygiad yn creu cyfleoedd newydd i hybu'r iaith a mentrau lleol yn y gymuned?
- 5.3 Sut fydd y datblygiad yn hybu'r defnydd o'r iaith yn y gymuned?
- 5.4 Beth yw'r mesurau lliniaru arfaethedig?

#### **Mae cynigion datblygu a fydd:**

- a) yn diwallu llawer mwy nag ar gyfer angen lleol, ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol;
- b) yn gymharol fawr mewn cymhariaeth â'r galw yn y farchnad leol;
- c) yn denu mewnlifiad cymharol fawr o siaradwyr di Gymraeg;
- ch) yn ailadrodd tueddiadau yn y gorffennol y gwyddom eu bod yn cael effaith andwyol ar les yr iaith;

**yn debygol o fod angen Asesiad o Effaith ar iaith.**

## ASESIAD O EFFAITH AR IAITH

### ASESU EFFEITHIAU TEBYGOL DATBLYGIAD AR GYMUNED AC IAITH

#### 1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Lle mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried nad yw'r Datganiad Ieithyddol yn darparu digon o wybodaeth i asesu'r effaith ar iaith yn iawn, neu lle mae niwed sylweddol yn debygol, dylid defnyddio'r fethodoleg fwy manwl ganlynol i baratoi Asesiad llawn o Effaith ar Iaith o fewn yr Ardal Ieithyddol Sensitif fel a ddiffiniwyd.

#### 2. PWRPAS

- 2.1 Pwrpas y **Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith** yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i fesur ac asesu effeithiau posibl datblygiad ar gymuned leol yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn enwedig. Yn ei hanfod, mae asesiad o effaith ar iaith yn broses o asesu effeithiau tebygol ei wahanol elfennau, a pholisïau, yn y dyfodol, ac effeithiau cyfunol cais neu bolisi cyfan ac agweddau arnynt ar amrediad o nodweddion cymunedol.
- 2.2 Ar ôl darparu Datganiad Ieithyddol a dangos pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i'r gymuned, efallai y bydd awdurdodau cynllunio yn gofyn i ddatblygwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio unigol baratoi Asesiad o Effaith ar Iaith. Mae'r asesiad yn rhoi'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun nodweddion cymuned, a'r dymuniad i greu cymunedau cynaliadwy. Gallent hwythau hefyd ddefnyddio'r fethodoleg i ddatblygu polisïau ac ymddiried yng ngoblygiadau dyraniadau defnydd tir newydd.
- 2.3 Mae'r Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith yn cynnwys rhestr wirio fel bo'r datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol yn gallu asesu effaith debygol cais datblygu yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd y gymuned:
- Poblogaeth (lefelau a nodweddion y boblogaeth honno)
  - Ansawdd bywyd (sy'n creu cymhelliad i bobl aros, gadael neu symud i'r gymuned)
  - Yr economi (sy'n effeithio ar gyfleoedd gwaith i wahanol grwpiau yn ogystal ag ar gost byw ac, yn fwy penodol, ar gost tai)



ch) Seilwaith (sydd ei angen i gynnal y gymuned, yn enwedig ysgolion, gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol)

d) Bywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymuned (a fynegir drwy asbri ei sefydliadau diwylliannol, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â phobl iau).

- 2.4 Mae sefydlogrwydd neu dwf cymedrol y boblogaeth, wedi'i gyfuno ag ansawdd bywyd da, economi gref, seilwaith o safon uchel a bywyd cymdeithasol a diwylliannol byrlymus, i gyd yn greiddiol i gynaliadwyedd ac unoliaeth y gymuned. Lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas yn y gymuned, mae ei thynged a'i lles yn anochel yn annatod wrth ffyniant ehangach y gymuned honno. Os yw datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i unrhyw un o'r agweddau hyn, gall gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg hefyd. Fodd bynnag, os yw'n sensitif i'r cyd-destun lleol, e.e. mae'n cynnal yr economi leol, yna mae'r effaith yn llawer mwy tebygol o fod yn gadarnhaol.
- 2.5 Mae'r rhestr wirio yn rhoi canllawiau ar gyfer asesu effaith debygol datblygiad yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd cymunedol, gyda golwg ar sefydlu ei effaith ar y gymuned yn gyffredinol, ac ar yr iaith Gymraeg yn fwy penodol. Cyfarwyddyd ydyw i rai sy'n gyfrifol am fesur yr effeithiau tebygol hynny, am lunio polisi ac am gynghori ar benderfyniadau datblygu.
- 2.6 Bydd angen i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol chwilio drwy'r ystadegau perthnasol sydd ar gael yn lleol a chenedlaethol i wneud asesiad clir o'r ffynonellau data ar y pum agwedd ar fywyd cymunedol. Mae rhestr o'r ffynonellau data mwyaf perthnasol, a'u gwefannau, yn Atodiad Ch. Gellir cael gafael yn hawdd ac yn ddi-dâl ar y rhan fwyaf o'r data, ac mae rhai mathau o ddata yng nghyswllt cymunedau penodol ar gael ar beiriannau chwilio ar-lein.

### 3. METHODOLEG AC ASESU

- 3.1 Dyfeisiwyd y Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith ar ôl ystyried y math o fethodolegau asesu effaith a ddefnyddir eisoes ar gyfer gwahanol agweddau ar gynllunio a datblygu. Mae'r methodolegau hyn fel arfer yn cynnwys naill ai system sgorio tic / croes yn ateb i bob cwestiwn, neu system sgorio rhifol.

#### Sgorio'r Rhestr Wirio

- 3.2 Mae'r Fethodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar Iaith yn broses oddrychol a'i nod yw sefydlu'r effeithiau tebygol sy'n deillio o bolisi neu gais datblygu. Pan fydd swyddogion yn defnyddio'r rhestr wirio, dylid ateb pob cwestiwn gyda sgôr cadarnhaol, negyddol neu niwtral i adlewyrchu effaith dybiedig y datblygiad yn erbyn y pum dimensiwn. Rhaid rhoi sgôr rhifol yn ateb i bob cwestiwn ar y rhestr

wirio, gyda +1 yn cynrychioli effaith gadarnhaol dybiedig, -1 yn golygu effaith negyddol dybiedig, a 0 yn golygu effaith niwtral dybiedig.

- 3.3 Yn raddol, bydd sgoriau o +1, -1 a 0 yn cael eu rhoi yn atebion i bob cwestiwn ar y rhestr wirio ar gyfer pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol. Mae gallu cymharu opsiynau yn bwysig ar gyfer gwneud asesiad, gan dywys yr asesydd at y dewis 'gorau' yn gyffredinol. Mae'r asesiad o effaith yn helpu i oleuo penderfyniadau ynghylch pa bynciau ar y rhestr wirio sy'n perfformio'n well nag eraill yn erbyn y pum dimensiwn ar fywyd cymunedol drwy ddatgelu'r effeithiau posibl. Rhaid i'r dewisiadau yn y pen draw gael eu gwneud gan yr asesydd. Os na ellir ateb unrhyw gwestiwn, awgrymir y bydd angen i'r aseswyr greu data a thystiolaeth newydd i chwilio am ateb. Yn y broses asesu, bydd methiant i ateb cwestiwn (h.y. lle na roddir ateb o gwbl) yn cael ei ddileu o'r sgôr cyffredinol. Bydd matrices terfynol y Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol (gweler isod) yn nodi pa opsiynau sy'n cael effeithiau mwy andwyol neu, i'r gwrthwyneb, yn cyfrannu'n llesol.
- 3.4 Nid awgrymir y bydd ychwanegu a chymharu'r effeithiau hyn yn gwneud y dewis terfynol i'r datblygwr / awdurdodau cynllunio lleol yn un hawdd. Fodd bynnag, bydd matrices sy'n canfod effeithiau sylweddol cymharol gadarnhaol neu negyddol, ac sy'n cynnwys sylwadau, yn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i ddewis yr opsiwn mwyaf cynaliadwy. Bydd y pwysigrwydd neu'r pwysau a roddir i gwestiwn rhestr wirio yn amrywio ar gyfer gwahanol bolisiau a chynigion datblygu, a mater i'r aseswyr yw dyfarnu hynny. Er enghraifft, bydd angen i'r datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol farnu faint o bwysau i'w rhoi i'r atebion rhestr wirio hynny sy'n ymwneud â'r tymor byr neu hir.
- 3.5 Bydd nifer o achosion lle na fydd y categorieiddio hwn yn bosibl a dylid cofnodi'r rhain fel 'ddim yn gwybod' neu gyda nod ymholiad. Hefyd, bydd achosion lle na fydd yn bosibl categorieiddio'r polisi gan fod geiriad y polisi yn golygu na ellir mesur ei effeithiau tebygol. Dylid trin hyn, hefyd, fel ymholiad (gweler y blwch isod). Dylid ail-lunio'r polisiâu hyn fel y gellir eu mesur gyda tharged neu ddangosydd addas.
- 3.6 Bydd llawer o'r gwerthuso a fydd yn deillio o'r fethodoleg arfaethedig o leiaf yn rhannol ansoddol, ac yn dibynnu ar grebwyll yr aseswyr. O'r herwydd, mae'r dull a hybir yn un sy'n defnyddio system mewnosod testun ar gyfer y fframwaith gwerthuso, yn lle dibynnu'n unig ar symbolau. Yn aml, bydd y materion a godir gan y testun yn deillio o 'gysylltiad meddwl' yn hytrach na'n uniongyrchol o'r fframwaith gwerthuso. Mae cysylltiadau o'r fath yn aml yn bur werthfawr, gan wneud rhyng-gysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar effaith – ni fyddai asesiad symbolau yn rhoi hyn.

**Cyfrifo'r Mynegai Effaith Gyffredinol**

- 3.7 Y rhan derfynol o'r fethodoleg asesu yw'r Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol. Mae hwn yn cynnwys tabl cryno mesuredig fel bo'r asesydd yn gallu cyfrifo sgôr cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gyfer yr effeithiau tybiedig sy'n debygol o ddigwydd. Bydd y sgôr yna'n dod yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu cais am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt rheoli datblygu, neu'n ddangosydd ar gyfer asesu a ddylid mabwysiadu polisi neu gais datblygu neu beidio.
- 3.8 Mae pob un o'r cwestiynau o fewn pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol – nodweddion poblogaeth, ansawdd bywyd, ffactorau economaidd, cyflenwad seilwaith, materion cymdeithasol a diwylliannol – yn cynhyrchu ystod o sgoriau a elwir yn *mynegai sylfaenol*. Gellir yna defnyddio'r 18 sgôr hyn i gyfrifo'r Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol sef, yn syml, y sgôr cyfartalog ar draws yr holl atebion. Mae Sgôr Sylfaenol Cyffredinol rhwng 0.1 a 1.0 yn dynodi effaith gadarnhaol; mae sgôr o 0 yn dynodi effaith niwtral; mae sgôr rhwng -1.0 a -0.1 yn dynodi effaith negyddol, gyda ffigurau gwirioneddol yn cynrychioli difrifoldeb cymharol tybiedig yr effaith.
- 3.9 Mae'r tabl cryno yn awtomatig yn cyfrifo *mynegai dimensiynol*, sy'n sgôr cyfartalog ar gyfer pob un o'r pum agwedd ar fywyd cymunedol – cyfartalog boblogaeth; cyfartalog ansawdd bywyd; cyfartalog ffactorau economaidd; cyfartalog seilwaith; a chyfartalog ar gyfer materion cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi'r aseswyr i gymharu'r sgôr cyfartalog ar gyfer pob un o'r pum dimensiwn, tra'n cydnabod yr effeithiau mwyaf tybiedig, ac unrhyw gyfnewidiadau posibl, rhwng y naill dimensiwn a'r llall.
- 3.10 Gan ddibynnu ar flaenoriaethau polisi'r awdurdod cynllunio lleol, amcanion y cynllun datblygu, a phroffil economaidd-gymdeithasol y gymuned lle bwriedir cyflwyno'r datblygiad, yn y cam hwn o'r asesiad gall yr asesydd roi mwy o bwyslais ar un neu fwy o'r pum dimensiwn pan ddefnyddir y Mynegai Effaith Gyffredinol fel arf i wneud penderfyniad. Mater i'r awdurdod cynllunio yw rhoi mwy o bwysau neu beidio ar ddimensiwn penodol, a chyfiawnhau hynny ar sail amgylchiadau lleol a blaenoriaethau polisi. Ond hefyd, gall yr asesydd ystyried bod y pum agwedd ar fywyd yr un mor bwysig â'i gilydd, gan felly roi yr un pwysau iddynt.
- 3.11 Gellir yna defnyddio'r Sgôr Mynegai Sylfaenol Cyffredinol i gyfrifo *Sgoriau Effaith ar Iaith*. Rhennir y sgoriau hyn yn dri amrywiad – i gynrychioli faint mor bwysig yw'r iaith yn y lleoliad arbennig hwnnw: os tybir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'uchel'; os ystyrir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'canolig'; ac os bernir bod gan yr iaith bwysigrwydd 'isel'. Cyfrifir y ffigurau hyn yn awtomatig.

Mater i'r awdurdod cynllunio lleol fydd defnyddio arwyddocâd 'uchel', 'canolig' neu 'isel' i nodi pwysigrwydd iaith, a phenderfynir hyn ar sail lleoliad arfaethedig y datblygiad ac ar sail canlyniadau'r ymarfer Proffil Ieithyddol.

## 4. DEFNYDDIO'R SGORIAU EFFAITH AR IAITH YM MAES CYNLLUNIO

- 4.1 Lle cymhwysir y fethodoleg i gais am ganiatâd cynllunio yng nghyswllt rheoli datblygu, bydd canlyniadau'r asesiad yn ystyriaeth berthnasol gyda phenderfynu'r cais hwnnw. Lle cymhwysir y fethodoleg i bolisi neu gynigion datblygu y bwriedir eu cynnwys mewn strategaeth neu gynllun datblygu, bydd canlyniadau'r asesiad yn rhoi syniad i'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch a ddylai symud ymlaen gyda'r polisi neu beidio.
- 4.2 Mae'r Sgôr Effaith ar Iaith (a'r asesiad o effaith gyffredinol) yn rhannol yn fater o grebwyll; mae'r sgôr yn cyflwyno barn ystyriol ar ran y datblygwr / awdurdod cynllunio lleol, yn benodol ynghylch lles iaith a chymuned, a byddai disgwyl i'r datblygwr / awdurdod cynllunio lleol gyfiawnhau a rhoi rhesymau dros ddefnyddio'r fethodoleg asesu mewn achosion unigol.
- 4.3 Ar adegau, bydd angen gwneud penderfyniadau sy'n diogelu'r iaith yn erbyn buddiannau cymdeithasol ac economaidd eraill. Lle mae'r awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu bod effaith debygol cais datblygu neu bolisi yn andwyol i les y gymuned ac yn fygythiad posibl i'r iaith, dylai'r awdurdod cynllunio ddangos drwy ganlyniadau'r fethodoleg asesu pam y byddai'r iaith Gymraeg, fel budd o bwysigrwydd cydnabyddedig, yn cael ei niweidio'n amlwg pe bai'r datblygiad yn mynd yn ei flaen.
- 4.4 Bydd soffistigeiddrwydd y fethodoleg asesu effaith ar iaith yn sicrhau bod sylfaen gadarn yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei darparu i wneuthurwyr penderfyniadau o'i defnyddio i lunio polisi cynllunio ac wrth reoli datblygu. I ddechrau, bydd angen i'r Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg gael ei gydnabod mewn polisi cynllunio cenedlaethol gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn rhoi elfen o sicrwydd i awdurdodau cynllunio lleol ac fel y gellir rhoi'r fethodoleg ar waith yn ymarferol.

### Trosolwg

- 4.5 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r nodyn hyn fel canllaw i'w hasesiadau eu hunain, yng nghyswllt y data a ddefnyddir a'r cysylltiadau a nodir rhwng datblygiadau a'u heffeithiau. Fodd bynnag, cryfheir y fethodoleg asesu yn sylweddol drwy fonitro datblygiadau lleol a mesur eu heffaith ar draws y pum agwedd ar fywyd cymunedol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau i ddarogan yr effaith debygol ar iaith a chymuned yn fwy hyderus.
- 4.6 Dylid gweld y rhestr wirio a nodir yma fel man cychwyn a chanllaw i asesu effaith yn y dyfodol. Dylid ei defnyddio ar y cyd ag ystod eang o ddata lleol a chenedlaethol, a gwybodaeth leol. Dylai'r fethodoleg asesu arwain at

ddyfarniadau mwy gwybodus ynghylch effeithiau datblygiad ar gymuned, ac felly, at bolisiâu a phenderfyniadau mwy priodol. Er hynny, ni all gynnig datganiad diffiniedig na meintiol ar effeithiau datblygiad.

- 4.7 Dylai'r dewis o gwestiynau rhestr wirio a'r agweddau ar fywyd cymunedol y mesurir y broses asesu effaith ar iaith yn eu herbyn fod ar sail, a dylid hefyd eu cysylltu i, amcanion sy'n ymwneud yn benodol â bwriad ac nid â disgrifiad. Dylid cyfyngu nifer y pynciau rhestr wirio a chymunedol am resymau ymarferol ac ariannol, gan osgoi'r posibilrwydd o orlwytho gwybodaeth. Dylid eu cadw i'r lleiafswm, ac un maen prawf hanfodol yw bod data ar gael i gynorthwyo gwneud dyfarniad ystyriol ynghylch pob un am gost resymol. Mae'n holl bwysig bod cynnydd gyda gweithredu'r aseiad o effaith ar iaith yn cael ei fonitro a'i effaith yn cael ei adolygu yng nghyswllt yr amcanion ar gyfer yr iaith Gymraeg a chymunedau cynaliadwy.
- 4.8 Mae un o'r angenrheidiau ar gyfer aseiad o effaith ar iaith yn glir: rhaid i'r cwestiynau rhestr wirio fod yn ddigon penodol eu bwriad i alluogi eu hasesu. A chymryd bod cwmpas a natur yr aseiad o effaith yn gyson â'r cyngor yn PPW Cymru a'r TAN perthnasol, dylai fod yn bosibl ei weithredu a'i ddefnyddio ar gyfer llunio polisi, gwerthuso polisi a rheoli datblygu. Lle nad yw'r fethodoleg asesu effaith ar iaith yn gallu rhoi syniad clir o effeithiau posibl polisi neu gynigion datblygu arbennig, bydd yn arwydd felly bod y polisi neu'r cynnig datblygu yn aneglur ac nad yw'n ddigon penodol ac, o ganlyniad, yn awgrymu bod angen ei ddiwygio.

## Cwestiynau Rhestr Wirio ar yr Effeithiau ar Iaith a Chymuned

A fydddech gystal â llenwi'r holiadur canlynol, gan roi gymaint o fanylion â phosibl. Ar ôl y prif gwestiwn, rhoddir cyfle i wneud sylwadau pellach ar faterion allweddol. Mae rhan (a) yn dilyn pob cwestiwn yn gyfle i wneud asesiad cyffredinol; mae rhan (b) yn ddatganiad tystiolaeth, fel arfer yn seiliedig ar brofiad blaenorol; rhan (c) yw eich asesiad chi, ar sail tystiolaeth, o'r effaith gyffredinol ar y gymuned, ac mae rhan (ch) yn trafod mesurau lliniaru posibl. Bydd angen bwydo'r asesiad rhifol yn rhan (c) ym mhob cwestiwn i'r 'arf' ar gyfer mesur effaith gyffredinol ar ddiwedd yr holiadur.

### NODWEDDION POBLOGAETH

#### 1. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth a allai:

Effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg (mewn ffordd negyddol / gadarnhaol)? neu

Arwain at ddirywiad absoliwt neu gyfrannol yn nifer y siaradwyr Cymraeg?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?


#### 2. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

A allai hyn arwain at gynnydd parhaol yng nghyfran yr aelwydydd di Gymraeg?

A fydd y newid yn barhaol neu'n un dros dro?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?




**3. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at fwy o allfudo?**

A ydyw'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golli aelwydydd di Gymraeg?

A fydd y newid yn barhaol neu'n un dros dro?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?


**4. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at newid strwythur oed y gymuned? A allai :**

Arwain at fod pobl ifanc / canol oed / pobl hŷn sy'n siarad Cymraeg yn gadael yr ardal neu'n symud i'r ardal, gan arwain at:

Newidiadau yn y patrymau gweithgarwch traddodiadol a fyddai, yn ei dro, yn arwain at fwy o bobl yn dymuno symud i ffwrdd?

Tensiynau cymdeithasol / chwalu'r rhwydweithiau cymdeithasol traddodiadol?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau achos lleol / cenedlaethol ar sail Cyfrifiad 1991 a 2001 y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?


**ANSAWDD BYWYD**

**5. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? A allai :**

Gynyddu'r risg o salwch, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

Bod â'r potensial i wneud bywyd yn ddrytach, gan felly gynyddu'r risg o broblemau ariannol / straen ar y boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu Fynegai Amddifadedd)


c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

--

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

--

**6. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar fwynder yr ardal leol? A allai :**

Arwain at ddirywiad yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

--

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

--

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (asesiadau amgylcheddol lleol neu arolygon preswylwyr lleol)

--

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

--

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

--

**7. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned? A allai :**

Gynyddu'r risg o droseddu neu drais, gan felly wneud y gymuned yn lle llai dymunol i fyw ynddi?

--

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

--

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (ffigurau troseddu lleol / cofnodion yr heddlu mewn ardaloedd sydd â datblygiadau tebyg)

--

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

--

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

--

**FFACTORAU ECONOMAIDD**

**8. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol? A allai :**

Fod â'r potensial i arwain at sefyllfa lle byddai busnesau lleol – Cymraeg eu hiaith – yn cau, oherwydd:

--

Lleihad yn y boblogaeth leol yn gyffredinol?

--

Cynnydd yn nifer y preswylwyr di Gymraeg?

--

Cynnydd mewn cystadleuaeth andwyol / fanteisiol?

--

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

--

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (arolygon busnes lleol neu asesiadau economaidd lleol)

--

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**9. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol? A allai :**

Greu swyddi i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith (efallai drwy fod gan bobl leol Cymraeg eu hiaith y sgiliau iawn)?

Bygwth swyddi'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith (efallai drwy arwain at gau busnesau lleol)

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**10. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd? A allai :**

Fod â'r potensial i arwain at fwy o wahanol swyddi i'r boblogaeth leol Cymraeg ei hiaith, oherwydd arallgyfeirio economaidd?

Arwain at fwy o siaradwyr di Gymraeg yn mewnfudo?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu Gyfrifiad y Deyrnas Unedig)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**11. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflog lleol? A allai :**

Fod â'r potensial i gynyddu / lleihau lefelau cyflog oherwydd cynyddu'r gweithlu / cystadleuaeth fusnes?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu Fyngai Amddifadedd Incwm)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

--

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

--

**12. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai? A allai :**

Orfodi pobl leol Cymraeg eu hiaith i adael y gymuned?

--

Bod â'r potensial i arwain at fwy o ddigartrefedd / straen tai ymhlith aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith?

--

Atal pobl leol Cymraeg eu hiaith rhag dychwelyd i'r ardal / gymuned?

--

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

--

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol gan asiantau tai neu wybodaeth a gasglwyd drwy arolygon angen tai)

--

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

--

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

--

**CYFLENWAD SEILWAITH**

**13. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol? A allai :**

Fygwth / diogelu ysgolion lleol o ganlyniad i fwy / llai o fyfyrwyr ar y gofrestr ysgol?

--

Newid y cydbwysedd rhwng myfyrwyr Cymraeg eu hiaith a di Gymraeg?

--

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

--

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol a data gan Awdurdodau Addysg Lleol)

--

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

--

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

--

**14. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar wasanaethau gofal iechyd? A allai :**

Fygwth / diogelu cyfleusterau / gwasanaethau lleol cyfrwng Cymraeg?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol a gwybodaeth ar gyfer Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**15. A ydyw'r polisi / cynllun / rhaglen / prosiect yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol, fel siopau / swyddfeydd post / banciau / tai tafarn? A allai :**

Fygwth / diogelu siopau / swyddfeydd post / banciau / tai tafarn lleol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, gan felly orfodi rhai grwpiau o'r boblogaeth i symud allan o'r ardal / gymuned, e.e. yr henoed neu'r anabl, neu'r ifanc?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau lleol neu wybodaeth fasnachol sydd ar gael o gyfeiriaduron busnes, y swyddfa TAW neu'r gofrestr trethi busnes)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**AGWEDDAU CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

**16. A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen / prosiect botensial i arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Cymraeg ei hiaith? A allai :**

Gael effaith anwastad sylweddol ar wahanol rannau o'r gymuned leol, gan greu mantais i rai grwpiau ac anfantais i eraill?

Mynd yn groes i werthoedd traddodiadol mewn rhai rhannau o'r gymuned?

a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau / asesiadau lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?

**17. A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen / prosiect botensial i arwain at newidiadau i'r traddodiadau / diwylliant Cymreig lleol? A allai :**

Arwain at fod aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith yn gorfod symud i ffwrdd o'r ardal?

Arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd di Gymraeg heb fod yn lleol?

Arwain at erydu cysylltiadau teuluol neu rwydweithiau cymdeithasol eraill?

Arwain at newidiadau sylweddol i'r cyd-destun economaidd neu gymdeithasol, gan fygwth ffyrdd traddodiadol o fyw?

Effeithio ar aelwydydd lleol Cymraeg eu hiaith drwy gyflwyno / cyflymu newid cymdeithasol?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau / asesiadau lleol)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?


**18. A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen / prosiect botensial i gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgarwch / ieuencid lleol? A allai :**

Orfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud allan o'r gymuned, oherwydd:

Effaith sy'n cynyddu diweithdra / straen economaidd?

Effaith sy'n arwain at godi prisiau tai / straen tai?


a) DISGRIFIWCH eich asesiad cyffredinol os gwelwch yn dda

b) NODWCH unrhyw dystiolaeth flaenorol (astudiaethau ac asesiadau lleol / Mynegeion Amddifadedd)

c) NODWCH a ydych yn credu y bydd y datblygiad yn cael effaith GADARNHAOL (1), NIWTRAL (0) neu NEGYDDOL (-1) ar y GYMUNED ar y cyfan

ch) Sut fyddai modd lliniaru unrhyw effaith NEGYDDOL, neu wella unrhyw effaith GADARNHAOL?




**Nodiadau**

Mae **Cwestiwn 1** yn ystyried y mater sylfaenol o dwf neu leihad poblogaeth o ganlyniad i ddatblygu. Mae gan y rhan fwyaf o ddatblygiadau dueddiad i sefydlogi poblogaeth neu i symbylu twf. Ond un cwestiwn sylfaenol yw a fydd y datblygiad yn arwain at dwf cynhenid (e.e. yn creu swyddi lleol ac yn caniatáu i bobl a fyddai fel arall wedi gadael y gymuned i aros yno) neu a ydyw'n debygol o brysuero mewnfudo. Er bod mewnfudo yn aml yn rym cadarnhaol mewn cymunedau gwledig, mae lefelau twf sylweddol yn debygol o effeithio ar y cydbwysedd cymdeithasol (o ran strwythur oed ac incwm, a chefnidir diwylliannol-gymdeithasol). Rhaid barnu a fydd twf poblogaeth yn effeithio'n gadarnhaol neu'n andwyo ar sefyllfa'r iaith fel rhan o wead cymdeithasol y gymuned. Mae'r farn ynghylch hyn yn debygol o dynnu ar brofiad blaenorol, gydag asesiadau rhannol yn tynnu ar ddata Cyfrifiad.

Mae **Cwestiwn 2** yn rhoi sylw i fater mewnfudo yn fwy uniongyrchol. Mae rhai datblygiadau yn debygol o achosi ad-drefnu cymdeithasol. Er enghraifft, nid yw datblygiad preswyl i bwrpas ymddeol mewn cymuned sydd â strwythur oed ifanc yn debygol o ddiwallu angen lleol tra'n achosi newid cymdeithasol parhaol. Fodd bynnag, nid yw datblygiad cartrefi gwyliau yn debygol o achosi unrhyw newid parhaol i'r strwythur cymdeithasol, a gallai arwain at fanteision economaidd a asesir mewn cwestiynau eraill nes ymlaen. Eto, bydd y farn ynghylch hyn yn seiliedig ar brofiad, gyda data o'r Cyfrifiad i gefnogi hyn.

Mae **Cwestiwn 3** yn edrych ar allfudo. Nid yw y rhan fwyaf o ddatblygiadau yn gysylltiedig ag allfudo, gyda rhai eithriadau amlwg. Gall trosi gwasanaethau hanfodol (siopau neu ysgolion er enghraifft) yn ddefnydd preswyl ddarbwylllo pobl rhag aros yn y gymuned. Mae defnyddiau tir anghymdogol (cyfleusterau neu losgyddion gwastraff) neu rai sy'n cael eu hystyried i fod yn amhriodol mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell (gan gynnwys canolfannau lloches mawr) yn gallu cael effaith debyg. Unwaith eto, bydd angen barnu hyn ar sail cynsail asesiadau blaenorol.

Mae **Cwestiwn 4** yn cydnabod mai pur anaml y mae symudiadau neu golledion poblogaeth yn unfurf ar draws y proffil oed. Mae datblygiadau yn debygol o effeithio ar bobl iau, teuluoedd, pobl sengl neu aelwydydd hyn mewn gwahanol ffyrdd. Gall datblygiad sy'n hybu ymddeol brinhau cyfleoedd tai i bobl iau. Gall datblygiad nad yw'n creu gwaith neu gyfleoedd tai wedi eu teilwrio i anghenion pobl iau arwain, yn anfwriadol, at alltudio'r grŵp hwn o'r gymuned leol. Mae datblygiadau nad ydynt yn hybu ac yn helpu i gynnal cydbwysedd cymdeithasol yn debygol o brofi'n gymdeithasol ac yn ddiwylliannol anghynaliadwy.

Yng **Nghwestiwn 5**, gwneir ymgais i ganfod y cysylltiad rhwng iechyd a chymuned. Gall amddifadedd iechyd waethygu os yw tai pobl yn anaddas i'w hanghenion; os yw ffyrdd neu seilwaith wedi eu cynllunio'n wael neu os yw datblygiad diwydiannol yn cyfrannu at amgylchedd byw o ansawdd gwael. Felly hefyd, gall prinder tir glas integredig mewn cynigion datblygu amharu ar brydferthwch ardal. Efallai nad yw'r prosesau hyn yn effeithio ddim gwahanol ar breswylwyr Cymraeg eu hiaith ag ar drigolion di Gymraeg. Ond, os yw anheddiad yn bennaf yn un Cymraeg ei iaith – neu mae Cymraeg yn amlwg yn rhan o blethiad y gymdeithas – yna mae amharu ar ansawdd bywyd pobl yn gallu effeithio ar sefydlogrwydd y gymuned; bydd pobl sy'n gallu fforddio â symud i ffwrdd yn gwneud hynny, a bydd y manau hyn yn cael eu carfanu'n gymdeithasol yn fwy fyth. Yr ochr arall i'r geiniog, wrth gwrs, yw bod mewnfudwyr di Gymraeg yn llai tebygol o symud i leoedd llai atyniadol, oni bai mai cost yw eu prif gonsýrn yn hytrach nag ansawdd bywyd ac apêl esthetig.

*Mae **Cwestiwn 6** yn ymdrin â mater cysylltiedig. Bydd unrhyw ddirywiad mewn ansawdd yr amgylchedd yn cael effaith debyg, gan leihau apêl trefi, pentrefi neu gymdogaethau arbennig. Gallai lleihau ansawdd yr amgylchedd / apêl esthetig, neu fwynder cyffredinol, ysgogi pobl sydd â mwy o arian i'w wario i adael, tra'n achosi mewnlifiad o aelwydydd ar incwm is. Mae hyn yn debygol o effeithio ar gydbwysedd y trigolion Cymraeg / Saesneg eu hiaith yn ogystal ag ar gydbwysedd gwahanol grwpiau incwm a chymdeithasol. Rhaid i gymunedau gynnig lefel arbennig o ansawdd bywyd os ydynt i aros yn gymdeithasol sefydlog a chydlynol.*

*Mae **Cwestiwn 7** yn canolbwyntio ar droseddu: bydd troseddu – fel iechyd a mwynder – yn cael dylanwad tymor hir ar sefydlogrwydd a chydlyniant cymdeithasol. Cymuned gynaliadwy yw un lle cedwir troseddu ar lefel ddiodefod. Eto, gall cynnydd mewn troseddu – neu fwy o ofn troseddu – yrru pobl i ffwrdd neu weithio yn erbyn twf poblogaeth cytbwys. Mae hefyd yn arwain at straen personol a allai waethygu pryderon iechyd. Mae'r holl faterion ansawdd bywyd hyn yn bygwth cydbwysedd cymdeithasol: bydd pobl sy'n gallu fforddio â symud i ffwrdd yn gwneud hynny; gall cymunedau ddod i gael eu dominyddu gan grwpiau incwm isel sydd â'r lleiaf o ddewis ganddynt ynghylch lle i fyw. Mae'r anghydbwysedd hwn yn debygol o weithio yn erbyn buddiannau'r iaith Gymraeg, gan mai ond mewn cymunedau cytbwys a chynaliadwy y gall ffynnu.*

*Mae **Cwestiwn 8** yn troi at ddimensiwn economaidd y gymuned. Gall datblygiadau newydd arwain at sefydlu neu gau / cwtogi busnesau mewn cymdogaeth, tra'n cael effaith bosibl ar nwyddau a phris nwyddau. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae rhai ymhlith y boblogaeth yn methu â chael gafael ar y nwyddau hyn, neu at fod preswylwyr yn cael mwy o ddewis. Un dyfarniad allweddol i'w wneud yw i ba raddau y lleolir ystod a dewis o fusnesau yn agos at ei gilydd ac a ydyw hyn o fudd neu o anfantais i gymunedau.*

*Mae **Cwestiwn 9** yn cydnabod y gall datblygiadau newydd effeithio ar nifer, math ac ansawdd y swyddi sydd ar gael yn y farchnad lafur leol, gan ddibynnu ar fod amrediad o sgiliau ar gael. Gall prinder rhai sgiliau arwain at newid y proffil cymunedol wrth i weithwyr benderfynu symud i rywle lle medrant ddefnyddio eu sgiliau yn effeithiol.*

*Mae **Cwestiwn 10** yn mynd â hyn gam ymhellach ac yn cydnabod y gall datblygiad newydd greu cyfleoedd gwaith newydd, sydd angen sgiliau penodol, e.e. gallai datblygiad hamdden / twristiaeth yn seiliedig ar ddiwydiannau diwylliannol fod angen defnyddio mwy o'r iaith fel sgil marchnad lafur. Byddai'n rhaid i unrhyw asesiad fod yng nghyswllt y potensial ar gyfer arallgyfeirio economaidd a'r gallu i dderbyn gweithluoedd newydd.*

***Cwestiwn 11.** Gall y cystadlu rhwng sectorau cyflogaeth arwain at wneud penderfyniadau marchnad lafur ynghylch lle i gyflogi ac ansawdd tybiedig y cyfleoedd cyflogaeth. Mewn economi fyd-eang gystadleuol, gall cymunedau sy'n dibynnu ar gyflogaeth allweddol fod yn agored i newidiadau cyflog colledus a chystadleuaeth fusnes anffafriol.*

***Cwestiwn 12.** Mae cynnydd a lleihad yn y galw am dai yn debygol o arwain naill ai at godi neu ostwng prisiau tai ac mae hyn yn debygol o effeithio ar wahanol rannau o'r gymuned yn anghymesur. Gall prisiau tai, pan gysylltir hwynt i fathau eraill o bwysau tai, effeithio ar allu rhai pobl i brynu tai. Gall hefyd achosi mewnfudo neu allfudo ynghyd â chael effaith benodol ar faint y defnyddir yr iaith mewn cymuned. Gall datblygiadau tai a phrisiau tai cyfnewidiol hefyd arwain at gynnydd mewn cymudo. Mae hyn yn gallu bod yn symptom o newidiadau mwy cyffredinol yn y farchnad dai.*

Mae **Cwestiwn 13** yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau addysgol lleol. Gall datblygiad arwain at sefyllfa lle mae gwasanaethau lleol hanfodol, fel ysgolion, ar eu hennill oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth iau. Gallai diffyg unrhyw ddatblygiad a hynny, yn ei dro, yn golygu dim newid ym mhroffil oed y gymuned, fygwth hyfywedd ysgolion yn y dyfodol. Gallai diffyg darpariaeth a dewis o dai hefyd effeithio ar benderfyniadau ynghylch a fydd teuluoedd iau ar eu prifant yn aros mewn cymdogaeth arbennig neu'n symud i ffwrdd. Mae mwy a mwy o deuluoedd yn gwneud penderfyniadau penodol y dyddiau hyn yng nghyswllt dewis ysgol i'w plant a gall hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at, os nad y prif ddyllanwad ar benderfyniad i symud tŷ.

Mae **Cwestiwn 14** yn ystyried darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned. Wrth i nifer y bobl oedrannus gynyddu'n anghymesur â nifer y bobl iau, un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl i aros mewn ardal neu symud i fro arall am y tro cyntaf yw argaeledd y cyfleusterau iechyd. Gallai cadw neu sefydlu cyfleusterau gofal iechyd mewn cymuned effeithio ar hyfywedd yr iaith, yn enwedig lle mae canolfannau iechyd wedi dod yn fannau cyfarfod cymdeithasol, ac yn cynnal rhwydweithiau lleol Cymraeg eu hiaith. Mae prinder cyfleusterau yn gallu achosi pobl oedrannus i symud, neu'n arwain at sefyllfa lle mae teuluoedd yn gwneud penderfyniad poenus i helpu perthnasau oedrannus symud i rywle arall.

Mae **Cwestiwn 15** yn ymwneud â darparu gwasanaethau. Gall gwahanol fathau o ddatblygiad effeithio ar argaeledd a hyfywedd y gwasanaethau cymunedol presennol, hyd yn oed os lleolir y datblygiadau newydd hynny beth pellter oddi yno. Er enghraifft, gall datblygiad adwerthu mawr effeithio ar wasanaethau lleol ac ar rwydweithiau cymdeithasol yn y gymuned sy'n gweithredu fel manau cyfarfod, ac yn cynnal cysylltiad cymunedol. Gall penderfyniadau gan fusnesau mwy i adleoli neu i gau busnes hefyd effeithio ar wahanol rannau o'r boblogaeth yn anghymesur. Byddai hyn yn dibynnu ar ddarparu trafndiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat, a hwylustod mynediad at y rhain. Gallai hyn hefyd arwain at fod angen symud tŷ a hynny, yn ei dro, yn cael effaith ar gynaliadwyedd y gymuned yn y tymor hir.

Mae **Cwestiwn 16** yn troi at bryderon cymdeithasol a diwylliannol. Mae rhai mathau o ddatblygiad yn dueddol o fegino tensiynau cymdeithasol – er enghraifft, datblygiadau sy'n amlwg yn rhy fawr i'r gymuned, neu ddefnyddiau sy'n ymddangos i fod yn anghydnaws â chymeriad / economi'r ardal dan sylw. Yn y gorffennol, mae datblygiadau pentrefi gwyliau mawr wedi wynebu protestiadau chwyrn, felly hefyd gynigion i godi canolfannau lloches neu i gadw pobl ifanc dan glo. Ond yn aml, mae'r potensial ar gyfer gwrthdaro yn llai amlwg ac yn fwy cynnil. Gall datblygiadau ymddeol sy'n ateb galw allanol ysgogi aflonyddwch lleol; medrant arwain at ddyfodiad aelwydydd di Gymraeg. Felly hefyd, gall canolfannau siopa newydd fygwth siopau llai lleol, sydd wedi chwarae rôl ganolog yn y gymuned leol ers blynnyddoedd lawer. Gall yr holl ddatblygiadau hyn wynebu drwgdeimlad. Yn sicr, maent yn gallu sathru ar werthoedd lleol ac arwain pobl i gredu nad yw ystyriaethau diwylliannol yn cael eu cymryd o ddifrif. Ar y cyfan, medrant gael effaith ddigalon ar gymunedau Cymreig.

Mae traddodiadau a diwylliant wedi eu hangori gan garennnydd a rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae **Cwestiwn 17** yn cydnabod y gall sawl gwahanol math o ddatblygiad arwain at alltudio siaradwyr Cymraeg a chyflwyno siaradwyr di Gymraeg. Os yw hyn yn digwydd, yna mae cysylltiadau teuluol yn cael eu torri; mae rhwydweithiau cymdeithasol yn chwalu; a chydlyniant cymdeithasol yn cael ei golli. Eto, gall datblygiad amhriodol fod yn fygythiad

*diwylliannol, gan lastwreiddio neu chwalu'r rhwydweithiau hynny y sylfaenwyd traddodiad arnynt. Mae cydnabod yr effeithiau posibl hyn yn nwylo'r awdurdodau lleol i raddau helaeth iawn, a bydd angen iddynt ymgynghori â chynrychiolwyr y gymuned.*

*Drwy adeiladu ar Gwestiwn 17, mae Cwestiwn 18 yn cydnabod y gall colli'r cydlyniant cymdeithasol hwn – drwy ei gyfuno â datblygiadau sy'n effeithio ar bobl iau yn anghymesur – h.y. defnyddiau cyflogaeth newydd sy'n methu ag ateb angen lleol, neu dai sy'n anfforddiadwy i brynwyr tro cyntaf – gael effaith drychinebus ar sefydliadau cymunedol. Gall y rhain fod yn ganolog i fwrlwm bywyd y gymuned Gymreig. Unwaith y collir hwynt, nid ydynt yn debygol o ddychwelyd. Eto, gwaith yr awdurdodau cynllunio mewn ymgynghoriad â grwpiau cymunedol yw darogan y problemau hyn. Rhaid i awdurdodau / grwpiau lleol dynnu ar eu gwybodaeth am sefydliadau o'r fath (rhan yr Urdd, lles eisteddfodau lleol ac yn y blaen), ynghylch pa mor fywiog ydynt, ac effeithiau graddol datblygiadau a allai daflu'r cydbwysedd cymdeithasol a chyfranogiad y bobl leol oddi ar eu hechel ymhen amser.*

### Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol

Mae'r Mynegai Asesu Effaith Gyffredinol yn adeiladu ar waith yr Asesiad Effaith ar Iaith blaenorol. Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn darparu asesiadau rhifol o effaith gymunedol (h.y. y sgoriau cadarnhaol, niwtral neu negyddol ar gyfer rhan c) pob cwestiwn, a chyfunir y rhain i ffurfio (i) mynegai effaith gymunedol sylfaenol, a (ii) mynegeion effaith ar draws pob un o'r pum dimensiwn ar fywyd cymunedol. Ar sail proffil ieithyddol (dilyn y fethodoleg fframwaith a nodir ym mhrif ddogfennau'r pecyn adnoddau), bydd aseswyr wedi penderfynu a oes gan yr iaith Gymraeg bwysigrwydd 'uchel', 'canolig' neu 'isel' yn y gymuned. Mae sgoriau mynegai sylfaenol yn cael eu trosi yn sgoriau effaith ieithyddol uchel, canolig ac isel (1 = delwedd gadarnhaol uchel, hyd at -1 = delwedd negyddol uchel). Mater o grebwyll lleol yw pa sgôr y tybir i fod yn briodol.

Tabl Cryno o Effeithiau	Nodweddion Poblogaeth				Ansawdd Bywyd			Ffactorau Economaidd					Cyflenwad Seilwaith			Agweddau Cymdeithasol a Diwylliannol		
	Newid cyffredinol	Mewnffudo	Allfudo	Strwythur oed	Iechyd	Mwynder	Troseddau	Busnes	Swyddi lleol	Amrywiaeth defnyddiol	Incwm	Tai	Ysgolion	Gofal iechyd	Gwasanaethau	Tensiynau / Gwrthdaro	Diwylliant	Grwpiau Ieuenctid
Mynegai Sylfaenol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Mynegai Dimensiynol	0				0			0					0					
Iaith 1 UCHEL (1.0)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Iaith 2 CANOLIG (0.7)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Iaith 3 ISEL (0.5)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Sgôr Mynegai (Sylfaenol) Gyffredinol : Effaith ar y GYMUNED yn gyffredinol : 0

Sgoriau Effaith ar Iaith: Os ystyrir bod gan yr iaith bwysigrwydd UCHEL: 0  
 Os ystyrir bod gan yr iaith bwysigrwydd CANOLIG: 0  
 Os ystyrir bod gan yr iaith bwysigrwydd ISEL: 0

#### NODIADAU EGLURHAOL:

##### 1. Cyfrifo Sgoriau Mynegai Sylfaenol

Sgoriau i'w rhoi 'allan o 18' (rhannu â 18) i roi mesuriad o effaith sylfaenol, neu i'w rhannu â chyfanswm y cwestiynau y gellir eu hateb, felly : mae "0.1 i 1.0" yn dynodi graddfeydd o effaith gadarnhaol, mae "0" yn dynodi niwtral, "-1.0 i -0.1" yn dynodi graddfeydd o effaith negyddol rhwng "-1.0", sy'n negyddol iawn, a "-0.1" sy'n weddol negyddol.

##### 2. Trosi'r rhain yn Effaith ar Iaith

Mae defnyddio pwysigrwydd 'uchel', 'canolig' neu 'isel' yn benderfyniad lleol. Er enghraifft, lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uchel (90%), gellir barnu pwysigrwydd yr effaith i fod yn uchel : felly, bydd y sgôr effaith ar iaith yn cyfateb i'r sgôr sylfaenol; lle mae llai o siaradwyr Cymraeg (e.e. 30%) bydd y pwysigrwydd efallai yn cael ei farnu i fod yn 'ganolig' (sgoriau iaith yn cael eu haddasu ar i lawr o 0.5). Ond mewn rhai cymunedau, gall y dymuniad i hybu'r iaith olygu ei bod yn aros gyda phwysigrwydd uchel. Mewn manau eraill, efallai y bydd awdurdodau yn dewis defnyddio ffactor bwysigrwydd isel.

##### 3. Effeithiau Dimensiynol

Gellir barnu effaith datblygiad / polisi o fewn pob 'dimensiwn' ar gymuned ar wahân. Mae'r tabl cryno o effeithiau uchod yn rhoi sgoriau unigol ar gyfer 'poblogaeth', 'ansawdd bywyd' ac yn y blaen.

## FFYNONELLAU ALLWEDDOL O WYBODAETH BRESENNOL AM YR IAITH GYMRAEG

**1. Ystadegau ynghylch nifer a chanrannau o siaradwyr Cymraeg:**  
(mae'r wybodaeth yn deillio'n wreiddiol o Gyfrifiad 2001, tabl CAS 146)

a) Dadansoddiad Bwrdd yr Iaith o'r tabl:

*yn ôl Ardal Etholaethol a grwpiau oed manwl, gan gynnwys canrannau:*

<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/cynnwys.php?cID=6&pID=109&nID=174>

*yn ôl Cymuned a grwpiau oed manwl, gan gynnwys canrannau:*

<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/cynnwys.php?cID=6&pID=109&nID=412>

b) Dehongliad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r tabl:

*yn ôl Ardal Etholaethol, neu ardal gynhyrchu, a grwpiau oed manwl:*

<http://www.nomisweb.co.uk/home/census2001.asp>

*yn ôl Cymuned a 3 grŵp oed:*

<http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=11387>

**2. Ystadegau Ysgol:**

(mae gan bob awdurdod addysg lleol eu manylion eu hunain sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)).

Mae crynodeb o rai ystadegau ar lefel awdurdod lleol ar gael yn:

"Cymraeg mewn Ysgolion". Yr argraffiad diweddaraf yw:

<http://www.cymru.gov.uk/keypubstatisticsforwalesheadline/content/schools-teach/2004/hdw200402194-w.htm>



## GWYBODAETH YCHWANEGOL

- 1. Cylchrediad Papurau Bro a Phapurau Newydd Cymraeg Cenedlaethol** – Mae gwybodaeth am bapurau bro unigol ar gael gan Fwrdd yr Iaith yn : [www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)  
Er mwyn cael ffigurau cylchrediad ar gyfer cyhoeddiadau fel Golwg a'r Cymro, bydd angen ichi gysylltu â nhw'n uniongyrchol.
- 2. Prosiectau neu gynlluniau iaith lleol** – y Mentrau Iaith sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gweithgareddau lleol – mae manylion yr holl Fentrau ar gael yn : [http://www.mentrau-iaith.com/index.php?page\\_uid=7775b53d&lang=1](http://www.mentrau-iaith.com/index.php?page_uid=7775b53d&lang=1)  
  
Mae gan Fwrdd yr Iaith hefyd gynllun gweithredu lleol ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg mewn rhannau penodol o Gymru. Gellir cael rhestr o'r ardaloedd hyn gan swyddogion gweithredol drwy gysylltu â'r Bwrdd (gweler dolen gyswllt 1 uchod).
- 3. Nifer y plant di Gymraeg sydd wedi cofrestru mewn ysgolion cynradd, gan gynnwys gwybodaeth am dueddiadau hanesyddol** – Mae'r ddogfen 'Cymraeg mewn Ysgolion' (gweler rhan 2 ar y dudalen flaenorol) yn rhoi gwybodaeth ar sail sirol a chenedlaethol. Y data ar gyfer Ionawr 2003 yw'r wybodaeth gyhoeddedig ddiweddaraf ar sail sirol. Bydd angen cysylltu ag awdurdodau addysg lleol i gael gafael ar wybodaeth leol fanwl yng nghyswllt ysgolion unigol.
- 4. Nifer y dysgwyr Cymraeg sy'n oedolion (neu nifer yr oedolion sydd wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg) mewn ardaloedd penodol, a thueddiadau hanesyddol** – bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i chadw gan ELWa a'r ffynhonnell yw Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer y rhaglen Cymraeg i Oedolion hon ar gael yma: [http://www.elwa.org.uk/.doc\\_bin/Business%20General/190505\\_all\\_you\\_need\\_to\\_know\\_about\\_speaking\\_welsh\\_w.pdfs.pdf](http://www.elwa.org.uk/.doc_bin/Business%20General/190505_all_you_need_to_know_about_speaking_welsh_w.pdfs.pdf)  
  
Mae rhestr o swyddogion lleol o CYD ar gael yma: <http://www.aber.ac.uk/cyd/swyddogion.html>
- 5. Nifer yr ysgolion meithrin Cymraeg / dwyieithog a nifer y plant sy'n mynychu'r ysgolion hyn** – mae darpariaeth addysg cyn oed ysgol **Mudiad Ysgolion Meithrin** yn cynnwys Cylchoedd Ti a Fi i blant rhwng 6 mis hyd at 2½ oed a Chylchoedd Meithrin i blant rhwng 2½ oed hyd at oed ysgol. Mae awdurdodau addysg lleol, a darparwyr eraill, hefyd yn darparu addysg cyn oed ysgol i blant rhwng 3 oed ac oed ysgol.

Mae gwybodaeth am grwpiau Ti a Fi ac Ysgolion Meithrin ar gael drwy gysylltu â swyddogion y Mudiad Ysgolion Meithrin – [http://www.mym.co.uk/structure/staffing\\_cym.html](http://www.mym.co.uk/structure/staffing_cym.html)

Gall y Partneriaethau Blynnyddoedd Cynnar ym mhob ardal awdurdod lleol roi gwybodaeth am ddarpariaeth addysg arall gan ddarparwyr preifat a'r awdurdod addysg lleol.

6. **Eisteddfodau Bro** – mae Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn gallu darparu rhestr o'r holl eisteddfodau bro sy'n aelodau o'r gymdeithas.
7. **Unrhyw weithgareddau diwylliannol / ieithyddol eraill yn yr ardal** – nid oes ffynhonnell wybodaeth ar gael am y math hwn o wybodaeth. I ddechrau, dylech gysylltu â'r fenter iaith leol (gweler y ddolen gyswllt yn rhan 2 uchod) neu swyddogion rhanbarth yr Urdd – dyma'r manylion cyswllt: [www.urdd.org/index.html](http://www.urdd.org/index.html)

## **POLISIÂU CYNLLUNIAU DATBLYGU AR YR IAITH GYMRAEG**

Mae Atodiad D yn nodi'r polisiâu a gynhwysir yn y Cynlluniau Datblygu Unedol yng Nghymru ar yr iaith Gymraeg. Cyflawnwyd yr arolwg hwn o awdurdodau cynllunio lleol yn ystod haf 2005. Or 25 awdurdod cynllunio yng Nghymru sydd wedi cynhyrchu cynlluniau datblygu unedol (mae Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynhyrchu cynllun ar y cyd), mae 11 wedi datblygu polisi penodol ar yr iaith Gymraeg. Mae gan y polisiâu hyn i gyd yr un nod cyffredinol o geisio sicrhau nad yw datblygiadau yn achosi niwed dangosadwy i'r iaith Gymraeg mewn cymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith yn gryf. Mae y rhan fwyaf o'r polisiâu yn cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol a ddefnyddir i gefnogi gweithrediad y polisi.

Awdurdod Lleol	Cynllun (Statws)	Polisi / Helaethiad & Nodiadau Eglurhaol / Sylwadau'r Awdur +
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Yn y cam Diwygio (Mawrth 2004)	<i>Dim polisiâu iaith Gymraeg, er bod yr Arolygydd wedi argymhell yn ei Adroddiad y dylid diwygio Rhan 1 yn y Cynllun Datblygu Unedol i gynnwys cyfeiriad at yr iaith. Dywedodd hefyd bod cymysgedd cymdeithasol y Bwrdeistref o'r fath fel nad oes angen ei hystyried yn benodol ym mholisiâu'r Cynllun.</i>
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Yn y cam Newidiadau Arfaethedig Cyn Ymchwiliad (Mawrth 2005)	<p>Yr iaith Gymraeg</p> <p>5.120 Mae'r iaith yn chwarae rôl sylweddol yng nghymeriad a ffordd o fyw y cymunedau, ac yn rhan allweddol o'r diwylliant Cymreig. Yn ôl canllawiau'r Llywodraeth, rhaid i bolisiâu cynllunio defnydd tir ystyried materion iaith, a dymuna Awdurdod y Parc Cenedlaethol hwyluso'r defnydd parhaus a chynyddol o'r iaith Gymraeg.</p> <p>5.121 Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae cymunedau yng ngorllewin y Parc yn siarad mwy o Gymraeg na rhai yn y dwyrain. Mae cymunedau Cymraeg eu hiaith angen eu gwarchod rhag datblygiadau a fyddai'n arwain at lastwreiddio'r iaith a, thrwy hynny, nodweddion cymdeithasol a diwylliannol y gymuned. Efallai y bydd angen cyflwyno datblygiadau newydd yn raddol, fesul cam, er mwyn iddynt ymdoddi'n naturiol i'r ardal. Hefyd, dylid annog datblygiadau economaidd, preswyl a chymdeithasol priodol a fyddai'n cryfhau'r diwylliant Cymreig.</p> <p>5.121a Bydd y polisi fel arfer yn cael ei gymhwyso mewn ardaloedd Cyngorau Cymuned a Thref lle mae dros 30% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, yn ôl ffigurau Cyfrifiad. Lle nad yw'r cyfartalog cymunedol yn adlewyrchu clystyrau amlwg o siaradwyr Cymraeg mewn pentrefi yn y gymuned neu mewn ardal Cyngor Tref, bydd angen mesuriad mwy sensitif ac amodol. I'r perwyl hwn, ac yn amodol ar ganlyniad ymchwil Genedlaethol, efallai y daw Awdurdod y Parc i'r casgliad bod angen paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i roi cyfarwyddyd manwl ar gyfer barnu a ydyw'r iaith yn rhan o wead cymdeithasol ardal y Cynllun neu beidio; er mwyn mesur effaith polisiâu a chynigion datblygu ar yr iaith Gymraeg, a chynhyrchu Methodoleg Asesu Effaith ar yr iaith Gymraeg. Yn y cyfamser, gellir mabwysiadu dull rhagofalus lle tybir y byddai cais datblygu yn cyflwyno bygythiad sylweddol i'r iaith mewn gymuned.</p> <p><b>Polisi ES34: Yr iaith Gymraeg</b>  <b>Bydd cynigion datblygu mewn ardaloedd lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'r diwylliant a bywyd cymdeithasol y gymuned yn cael eu caniatáu lle:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i) <b>gellir dangos na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar nodweddion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned; a</b></li> <li>ii) <b>gellir cyflwyno'r datblygiad fesul cam os oes angen fel bo'r datblygiad newydd yn ymdoddi'n raddol i'r gymuned.</b></li> </ul>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bon ar Ogwr	Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu (Mai 2005)	<i>Dim polisiâu iaith Gymraeg, ond ceir cyfeiriad at yr iaith yn Rhan 2 y Cynllun Datblygu Unedol: Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried y cyngor a roddir ym Mholisi Cynllunio Cymru (2002) (para.2.10) ac yn PG(W) TAN 20 – 'Yr iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Datblygu'. Nid yw'n ystyried bod yna gymunedau yn y Bwrdeistref Sirol lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd yn rhan o wead y gymdeithas i bwrsas llunio polisi cynllunio manwl na strategol. (para. 2.3.12)</i>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Yn y cam Diwygio (lonawr 2003) *	Dim polisiâu iaith Gymraeg.
Cyngor Caerdydd	Cynllun Datblygu Unedol wedi'i adneuo (Hydref 2003). *	<p><i>Dim polisiâu iaith Gymraeg, er y cyfeirir at yr iaith yn Rhan 1:</i></p> <p>Yr iaith Gymraeg</p> <p>1.2.13 Mae Polisi Cynllunio Cymru (2002)<sup>6</sup> yn gofyn bod awdurdodau cynllunio yn ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas ac, os oes, y dylid ystyried hyn wrth lunio polisiâu cynlluniau.</p> <p>1.2.14 Yn ôl Cynllun iaith Gymraeg y Cyngor, mae 6.6% o boblogaeth Caerdydd yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn cynrychioli mwy o bobl (20,800) na mewn llawer o 'ardaloedd Cymraeg eu hiaith' eraill. Fodd bynnag, er bod peth amrywiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, nid yw'r iaith yn benodol i unrhyw ardal unigol ac nid oes unrhyw gymdogaeth lle credir bod y gyfran yn ddigon uchel i gael effaith ar ystyriaethau polisiâu cynllunio defnydd tir.</p> <p>1.2.15 Er hynny, mae'n bolisi gan y Cyngor Sir annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob cylch bywyd. Mae dogfennau ymgynghori blaenorol wedi eu cyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg, felly hefyd y Cynllun wedi'i Adneuo hwn.</p>
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Yn y cam Newidiadau Arfaethedig Cyn Ymchwiliad (Tachwedd 2003). Yn aros am adroddiad yr Arolygydd.	<p><i>Rhan 1:</i></p> <p>Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</p> <p>1.24 Yn ôl Cyfrifiad 1991, mae 54.8% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 18.7% ar gyfer Cymru gyfan. Mae cyfran uchaf y siaradwyr Cymraeg yn y Sir o fewn y grŵp 65 oed a hŷn, gyda 67% ohonynt yn siarad yr iaith. Mae cyfran uchel hefyd ymhlith y grŵp 3 i 15 oed, gyda 54.5% yn gallu siarad Cymraeg. Gan dde a de-ddwyrain Sir Gaerfyrddin y mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, er bod gan yr iaith ei chadarnleoedd mewn rhai ardaloedd gwledig hefyd.</p> <p>1.25 Mae'r ffigurau uchod yn cadarnhau bod yr iaith Gymraeg a'i diwylliant cysylltiedig yn rhan bwysig ac annatod o fywyd y gymuned yn Sir Gaerfyrddin. Gan hynny, ystyrir bod diogelu'r iaith Gymraeg yn fater polisi pwysig i Gyngor Sir Gaerfyrddin.</p> <p>1.26 Mae'r Awdurdod yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith, ac yn ceisio gwella ei statws drwy ei weithgareddau diri tra'n gweithredu polisi dwyieithog ar gyfer gweinyddu beunyddiol hefyd. Mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Unedol ac mae'r polisi aneddiadau fel a gyflwynir yn ei Fframwaith Strategol Cynaliadwy ar gyfer Aneddiadau yn ceisio sicrhau y parheir hyfywedd cymunedau arbennig ledled y Sir ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.</p> <p><b>CUDP 5 – Polisi iaith Gymraeg / Diwylliant Cymreig</b>  <b>Mae'n bolisi gan Gyngor Sir Gaerfyrddin bod yn rhaid i bob datblygiad roi ystyriaeth lawn i ddiogelu a gwneud cyfraniad cadarnhaol at nodweddion cymdeithasol, diwylliannol a ieithyddol y Sir.</b></p>

		<p><i>Rhan 2:</i> Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</p> <p>12.9 Mae gan yr iaith Gymraeg le canolog ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y Sir ac mae ei gwarchod a'i hybu yn nod polisi pwysig yn y Cynllun Datblygu Unedol. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu Strategaeth iaith Gymraeg, a'i phrif nod yw sicrhau dyfodol cadarn a ffyniannus i'r iaith yn Sir Gaerfyrddin.</p> <p>12.10 Tan yn ddiweddar, edrychwyd ar ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin fel asgwrn cefn y cymunedau Cymreig yn y Sir. Fodd bynnag, mae newidiadau demograffig diweddar wedi golygu bod yr argraff hwn yn gynyddol gamarweiniol. Cafwyd mewnfudo cyson i gefn gwlad Sir Gaerfyrddin dros y 25 mlynedd diwethaf ac, erbyn 1991, dim ond dwy gymuned wledig oedd â chanrannau o siaradwyr Cymraeg dros y trothwy o 70% - Tre-lech ac Aber-nant. Er hynny, ac eithrio'r cymunedau Saesneg eu hiaith traddodiadol ym mhen draw de orllewin y Sir, mae'r holl gymunedau gwledig eraill wedi llwyddo i gadw eu canrannau o siaradwyr Cymraeg uwchlaw 50%.</p> <p>12.11 Ar y llaw arall, mae de ddwyrain y Sir yn awgrymu darlun cwbl wahanol. Yn yr ardaloedd hyn bellach, ac yng nghymoedd Aman a Gwendraeth yn enwedig, y mae'r Gymraeg ar ei chryfaf yn y Sir. Yn wir, mae'n ffaith sy'n cael ei chydabod yn eang bod nifer uchel y siaradwyr Cymraeg yn y cymoedd gorllewinol hyn yn fater o arwyddocâd cenedlaethol. Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 1991, gan gymunedau Cwarter Bach a Phontyberem y mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>•Cwarter Bach (81%) a</li> <li>•Pontyberem (80%)</li> </ul> <p>12.12 O'r 19 o gymunedau diwydiannol rhwng afonydd Tywi a Llwchwr, mae 9 wedi llwyddo i gadw canran o siaradwyr Cymraeg dros 70%. Dim ond mewn tair cymuned y mae'r siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif – yn Llanelli, yn Llanelli Wledig ac yng Nghefn Sidan. Gan gymuned Llanelli y mae'r nifer leiaf o siaradwyr Cymraeg am bob pen o'r boblogaeth ond, hyd yn oed wedyn, mae'n cyfrif am bron i draean y boblogaeth (33.3%) – 7,635 o siaradwyr, tra bod gan Lanelli Wledig 8,550 o siaradwyr Cymraeg.</p> <p>12.13 Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2003), lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol cymunedau, rhaid ystyried hyn wrth lunio polisiâu cynllunio defnydd tir. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd maint a math y datblygiadau tai a chyflogaeth mewn rhai cymunedau yn cael effaith ar les yr iaith. Er hynny, mae'n cydnabod hefyd mai dim ond un newid ymhlith nifer a fydd yn cael effaith ar hoes ac egni'r iaith yw hwn, a bod llawer ohonynt y tu hwnt i reolaeth y system gynllunio. Er enghraifft, gweithgareddau addysgol a chymunedol.</p> <p>12.14 Nod y Fframwaith Strategol Cynaliadwy ar gyfer Aneddiadau yn y Cynllun Datblygu Unedol yw annog twf cytbwys yn yr aneddiadau yn ardal y Cynllun fel bod unrhyw gynigion datblygu newydd yn briodol i'w maint a'u hanghenion. Bydd y Cynllun yn cyfeirio y rhan fwyaf o ddatblygiadau i brif aneddiadau'r Sir, tra'n cydnabod hefyd bod angen cynnal cymunedau gwledig a'u nodweddion cymdeithasol, diwylliannol a ieithyddol cysylltiedig.</p> <p>12.15 Mae'n bwysig nodi bod Polisi Cynllunio Cymru 2002 yn gofyn na ddylai polisiâu Cynlluniau Datblygu Unedol geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu ar seiliau iaith.</p>
--	--	--



		<p><b>C5 - Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</b>  <b>Mae'n bolisi gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ymwrthod â chynigion datblygu a allai gael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd tymor hir yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• I warchod a hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ymhellach</li> <li>• I ymwrthod â chynigion datblygu lle mae eu maint a'u cymeriad yn debygol o fod yn fgythyad i anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg</li> <li>• Bydd effaith a dylanwad y Cynllun Datblygu Unedol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei fonitro fel rhan o'r ymarfer monitro ac adolygu (gweler y rhan ar 'Monitro ac Adolygu').</li> </ul> <p>Nodyn: Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi, er mwyn rhoi cyfarwyddyd ynghylch sut orau i fesur effaith andwyol a sut i ddefnyddio Aseidiadau o Effaith ar Iaith pan yn penderfynu ceisiadau cynllunio.</p>
<p>Cyngor Sir Ceredigion</p>	<p>Newidiadau Arfaethedig (Chwefror 2004)</p>	<p><b>GEN3.1 Datblygu a'r Iaith Gymraeg</b>  <b>Bydd ceisiadau datblygu yn amodol ar asesu eu heffaith bosibl ar nodweddion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol yr anheddiad, lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan gynhenid o gydlyniant cymdeithasol yr anheddiad hwnnw. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cyflwyno'r datblygiad newydd fesul cam fel bo'n ymdoddi'n naturiol ac yn raddol i'r gymuned. Lle byddai datblygiad yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr iaith Gymraeg, dylid gwrthod ceisiadau datblygu.</b></p> <p>Rhesymau dros Bolisi GEN3.1          Gall maint a chyflymder datblygiad effeithio ar nodweddion anheddiad mewn sawl ffordd. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod datblygiadau yn cael eu lleoli'n briodol, eu bod yn cael yr effaith leiaf bosibl a bod pob anheddiad yn gallu addasu iddynt. Mae iaith a diwylliant yn cyfrannu at ansawdd bywyd ac mae angen asesu nodweddion anheddiadau'r Sir ac effaith datblygiadau ar y ffactorau hyn pan yn ystyried ceisiadau datblygu newydd. Mae CER1.1 - Aseiad o Effaith Gymunedol - yn cynnig dull o ystyried effeithiau datblygiad newydd ynghyd â gyda pha ddatblygiadau y byddai eu cyflwyno'n raddol fesul cam efallai'n briodol. Yn gyffredinol, mae'r Cynllun yn ceisio hybu twf yn y manau hynny sydd fwyaf abl i dderbyn ac addasu i dwf.</p> <p><i>Newidiadau Arfaethedig</i>  <i>Mae nifer o gyfeiriadau ychwanegol at yr iaith Gymraeg wedi eu gosod mewn gwahanol bolisiau, ac yn enwedig mewn polisiâu Tai. Bydd y canlynol yn cael ei fewnosod fel testun ategol yn y bennod ar dai.</i></p> <p>PC 141 Datblygu a'r Iaith Gymraeg          Ystyrir bod pwysigrwydd gwarchod a chynnal yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o bob cymuned yn y Sir. Gan hynny, mae gwarchod a chynnal yr iaith yn rhan annatod o'r Cynllun Datblygu Unedol, ei bolisiau a'i gynigion. Ystyriwyd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg, ynghyd â materion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eraill, pan yn gwneud penderfyniad ynghylch maint a lleoliad unrhyw ddatblygiadau tai yn y Sir i'r dyfodol. Lle bernir, pan gyflwynir cais, y byddai</p>

		<p>datblygiad arfaethedig yn achosi niwed annerbyniol i'r iaith Gymraeg, efallai y bydd y Cyngor yn gwrthod y cais yn unol ag Amcan GEN3 a pholisi GEN3.1, yn amodol ar unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill o bwys. Gall y Cyngor hefyd ofyn bod datblygiad newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol mewn ymgais i leihau maint yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae gofyn bod datblygiad yn digwydd yn raddol hefyd yn fwy tebygol o sicrhau y defnyddir y tai newydd i ddiwallu anghenion oddi mewn i'r gymuned. Disgwylir y daw mwy o ganllawiau ar gael, yn genedlaethol a lleol, yn ystod cyfnod y Cynllun, ar sut orau i fesur effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg. Bydd canllawiau o'r fath yn cynorthwyo gweithrediad y polisiâu yn y Cynllun Datblygu Unedol er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau preswyl newydd yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg.</p>
<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</p>	<p>Cynllun Datblygu Unedol drafft (Ebrill 2001) ★</p>	<p><i>Rhan 1 Polisi:</i>  <b>Polisi ST11</b>  <b>Mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig ym mywyd busnes, cymdeithasol a diwylliannol y Bwrdeistref Sirol. Darbwylir yn erbyn unrhyw ddatblygiad sy'n tanseilio sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y gymuned.</b></p> <p>3.25 Mae'n bolisi gan y Llywodraeth a'r Cyngor annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae cyngor y Llywodraeth ar hyn ar gael yng Nghantlawiau Cynllunio (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol (TAN) (Cymru) 20: Yr Iaith Gymraeg – Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Datblygu, Mehefin 2000. Yn ôl y nodyn 'Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gall gyfrannu at ei lles.' Y prif bryderon yw rhai'n ymwneud â dyraniadau tai newydd a thwf economaidd, a'u heffaith ar y cydbwysedd ieithyddol mewn gwahanol ardaloedd.</p> <p>3.26 Yn ôl y Cyfrifiad Poblogaeth, cododd nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun Datblygu Unedol o 28,100 ym 1981 i 28,800 ym 1991. Fodd bynnag, disgynnodd cyfran y siaradwyr Cymraeg o 31.5% ym 1981 i 29.2% ym 1991, oherwydd cynnydd llawer mwy yn y boblogaeth yn gyffredinol. Ond, mae'r argraff draddodiadol bod y Gymraeg yn iaith wledig yn bennaf a siaredir gan boblogaeth sy'n un gynyddol oeddrannus, yn gamarweiniol. Er enghraifft, mae mwy na hanner y siaradwyr Cymraeg yn byw ar hyd y llain arfordirol trefol. Yn ôl Cyfrifiad 1991, yr oedd y Gymraeg hefyd yn cael ei siarad yn gynyddol gan yr ifanc, gyda 32.7% o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun o fewn y grŵp oed 3-24, sef canran debyg i'r cyfartalog Cymru gyfan. Er hynny, mae'n wir dweud bod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth yn is ar hyd y llain arfordirol trefol nag yn y cymunedau gwledig.</p> <p>3.27 Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang ar draws ardal y Cynllun. Mae'n gyfrwng addysg yn y rhan fwyaf o ysgolion pentref, mewn o leiaf un ysgol gynradd ym mhob un o'r prif drefi ac mewn dwy o saith ysgol uwchradd y wladwriaeth yn y Bwrdeistref Sirol. Defnyddir yr iaith mewn nifer o gystadlaethau celfyddydol, llenyddol a cherddorol pob blwyddyn, a cheir nifer o sefydliadau lleol lle mae gwybodaeth o'r iaith yn un o'r gofynion aelodaeth, e.e. Merched y Wawr ac amrywiol gorau meibion. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergele ym 1995, ac Eisteddfod yr Urdd ym Mae Penrhyn ym Mehefin 2000. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan anhepgor o'r digwyddiadau hyn a llwyddodd y ddwy ŵyl i ddenu nifer fawr o breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd, naill ai fel cystadleuwyr neu wylwyr. Eisteddfod yr Urdd yw'r ŵyl ieuencid fwyaf yn Ewrop a bydd yn dychwelyd i Landudno ym 2002.</p> <p>3.28 Y nod yw defnyddio'r polisi ar y cyd â pholisiau eraill yn y Cynllun i atal datblygiadau sydd (i) yn debygol o ddifetha cydbwysedd strwythur ieithyddol anheddiad neu gymuned, neu (ii) yn debygol o waethygu'r</p>

		<p>anghydbwysedd presennol, gan ddinistrio'r boblogaeth Cymraeg ei hiaith. Bydd y polisi yn berthnasol i bob math o ddatblygiad sydd, oherwydd ei faint a'i gymeriad, yn debygol o gael effaith andwyol ar anheddiad neu gymuned. Mae'r Cyngor wedi pennu angen tai cymharol gymedrol ar gyfer yr ardal dros gyfnod y Cynllun, a dylai hyn helpu i gynnal yr iaith Gymraeg yn y gymuned. Un o amcanion eraill y Cynllun yw annog defnydd gweledol o'r Gymraeg, mewn arwyddion a hysbysebion, a thrafodir y pwnc hwn ym Mhenod 6 – Yr Amgylchedd Adeiledig.</p>
<p>Cyngor Sir Ddinbych</p>	<p>Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu (Gorffennaf 2002)</p>	<p><b>Polisi GEN 7 – Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</b>  <b>Pan yn ystyried cynigion datblygu mewn ardaloedd sydd â hunaniaeth gymdeithasol, ddiwylliannol a ieithyddol gref, yn enwedig yng nghyswllt yr iaith Gymraeg, rhoddir ystyriaeth arbennig i'r hunaniaeth honno er mwyn sicrhau na achosir unrhyw niwed dangosadwy i gymeriad y gymuned leol.</b></p> <p>Mae'r iaith Gymraeg yn elfen bwysig o wead cymdeithas yn y Sir. Siaredir yr iaith gan tua 26% o boblogaeth y Sir. Mewn nifer o gymunedau gwledig yn y de a'r gorllewin, mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o strwythur cymdeithas yn yr ardal. Mewn 14 allan o 39 ardal gymuned, mae cyfran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn fwy na 50%. Ceir y crynodiadau mwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwyddelwern, Cynwyd, Llandrillo, Cyffylliog, Betws Gwerfil Goch a Llanrhaeadr yng Nghinmeirch. Yn y cymunedau hyn, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg dros 60%.</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn y dylai polisiâu a chynigion yn y Cynllun Datblygu Unedol ystyried yr iaith Gymraeg ac y dylai fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau ac apelïadau cynllunio. Mae maint a math amrywiol ddatblygiadau tai a chyflogaeth yn dylanwadu ar les yr iaith Gymraeg. Er hynny, dim ond un ffactor ydyw. Mae llawer o ddylanwadau eraill sydd y tu allan i reolaeth y system gynllunio sy'n cael effaith ar yr iaith a'r diwylliant Cymreig. Gwyddom fod lefelau blaenorol o dwf tai, gan gynnwys stadau mawr mewn pentrefi gwledig, wedi cael effaith aflesol ar yr iaith Gymraeg. Nod y Strategaeth a pholisiâu'r Cynllun Datblygu Unedol yw annog twf cytbwys er mwyn cwrdd ag anghenion lleol ar gyfer tai a swyddi, gyda'r rhan fwyaf o ddatblygu wedi ei ganoli yn y prif drefi. Mae'r Cynllun hefyd eisiau lleihau lefelau blaenorol o dwf tai. Ni fydd unrhyw ddatblygiadau mawr yn cael eu cynnig ar gyfer yr aneddiadau llai. Bydd y polisiâu cyflogaeth yn darparu cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig ac yn hybu cymunedau cynaliadwy.</p> <p>Mae Polisi GEN7 yn ymwneud â chynigion datblygu lle mae eu maint a'u cymeriad yn debygol o gael effaith annerbyniol ar y gymuned ehangach, gan gynnwys y bwriad i godi arwyddion. Bydd datblygiadau sy'n creu anghydbwysedd neu sy'n cael effaith niweidiol ar gydbwysedd ieithyddol a chymdeithasol anheddiad, yn cael eu gwrthod.</p> <p>Bydd y Cynllun yn mabwysiadu dull rhagofalus lle bydd yn rhaid i'r datblygwr, lle mae niwed sylweddol yn debygol, gynnwys gwybodaeth ac eglurhad digonol o effeithiau tebygol y datblygiad ar yr iaith Gymraeg a chymeriad diwylliannol yr ardal.</p>

		<p>Bydd y Cyngor yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i roi cyfarwyddyd manwl, yn enwedig ynghylch sut orau i fesur 'niwed sylweddol'.</p> <p>Nid yw p'un ai yw ymgeisydd yn siarad Cymraeg neu beidio yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, ac nid yw'n golygu y gellir ffafrio cais datblygu ar draul polisiâu cynllunio sydd yn berthnasol.</p> <p>Bydd yr effaith y bydd y Cynllun a phenderfyniadau datblygu yn ei gael ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael ei monitro'n ofalus. Bydd manylion hyn ar gael mewn adroddiad monitro ar wahân.</p>
<p>Cyngor Sir y Fflint</p>	<p>Drafft wedi'i adneuo (Medi 2003)</p>	<p><i>Rhan 1 Polisi:</i>  <b>STR9 Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</b>  <b>Dylai cynigion datblygu ystyried a, lle bo hynny'n briodol, atgyfnerthu'r iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol y gymuned a'r ardal.</b></p> <p><i>Rhan 2 Polisi:</i>  <b>GEN7 Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</b>  <b>Ni chaiff cynigion datblygu mewn ardaloedd sydd â hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol GREF:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. achosi niwed dangosadwy i gymeriad y gymuned honno;</li> <li>b. a, lle bo hynny'n briodol, dylent geisio atgyfnerthu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol y gymuned honno.</li> </ul> <p>4.24 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o blethiad cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac fe'i siarader gan tua 20% o'r boblogaeth. Er bod y cyfartalog yn agosach at 13% yn Sir y Fflint (ar adeg Cyfrifiad 1991), mae'r iaith i'w chlywed yn fwy mynych mewn rhai ardaloedd yn y Sir ac, felly, rhaid i'r Cynllun Datblygu Unedol ystyried yr effaith y gallai datblygiadau newydd ei gael ar y cymunedau hyn.</p> <p>4.25 <i>Siaredir yr iaith Gymraeg yn fwy mynych yng nghymunedau gwledig Sir y Fflint lle mae tua thraean o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg mewn cymunedau fel Treuddyn, Trelawnyd a Gwaenysgor, ac yn Ysceifiog. Ond mae'r gwahaniaeth yn un go sylweddol rhwng y cymunedau hyn a rhai fel Queensferry, Broughton a Sealand, lle siaredir yr iaith ond gan 6% neu 7% o'r boblogaeth, ac sy'n agosach at y ffin â Lloegr.</i></p> <p>4.26 Mae strategaeth y Cynllun yn cydnabod bod angen cefnogi a diogelu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol leol, a nod Polisi GEN7 yw sicrhau, lle gallai niwed sylweddol ddigwydd o ganlyniad i gynigion datblygu, y bydd yn rhaid i'r datblygwr gyflwyno gwybodaeth ategol sy'n asesu ac yn egluro'r effeithiau tebygol y gallai'r datblygiad ei gael ar hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol Gymreig.</p> <p>4.27 Mae'r Cyngor yn aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2001 a chanlyniad Astudiaeth Cynllunio Iaith Gymraeg a gomisiynwyd gan nifer helaeth o Awdurdodau Unedol ac a gefnogir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth yma i baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn rhoi cyfarwyddyd ar, ymhlith pethau eraill, sut orau i asesu a mesur effeithiau ar iaith a 'niwed dangosadwy'.</p>

		Nid yw p'un ai yw ymgeisydd yn siarad Cymraeg neu beidio yn ystyriaeth gynllunio berthnasol, ac ni fyddai'n effeithio ar gymhwysiad polisiâu cynllunio perthnasol.
Cyngor Gwynedd	Drafft wedi'i adneuo (Mehefin 2004)	<p><b>Polisi A2 – Aseidiadau Effaith ar iaith</b>  <b>Bydd cynigion datblygu a fyddai, oherwydd eu maint, graddfa neu leoliad, yn cael effaith annerbyniol ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau, yn cael eu gwrthod.</b></p> <p>2.2.5 Eglurhad – Y cam hanfodol cyntaf i sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad yn ymdoddi i'r ardal o'i amgylch yw dealltwriaeth o'r ardal leol. Yn y gorffennol, mae unrhyw ddadansoddiad o'r ardal o gwmpas datblygiad arfaethedig wedi tueddu i ganolbwyntio ar faterion fel tirwedd, trefwedd, deunyddiau adeiladu, ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae amcanion datblygu cynaliadwy yn golygu bod angen persbectif ehangach. Yn enwedig, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar y cysylltiad rhwng datblygiadau a chymunedau, er enghraifft y cysylltiad rhwng tai newydd a'r iaith a'r diwylliant.</p> <p>2.2.6 Mae'r iaith a'r diwylliant yn cyfrannu at gymeriad pentrefi yn Ardal y Cynllun. Un o nodau pwysig y Cynllun yw cryfhau a gwarchod diwylliant a chymeriad cymunedau brodorol y Sir. Gall maint a graddfa datblygiadau effeithio ar gymeriad ieithyddol a diwylliannol ardal. Mae buddiannau'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth sylfaenol ym mhob un o bolisiâu a chynigion datblygu'r Cynllun; mae cymeriad ieithyddol pentrefi eisoes wedi bod yn ystyriaeth o bwys pan yn penderfynu lle i dynnu'r llinell gyda thai marchnad agored newydd.</p> <p>2.2.7 Er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ceisiadau cynllunio, mae angen gwybodaeth gynhwysfawr am effaith debygol datblygiadau. Felly, os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch effaith datblygiad ar gydlyniant cymdeithasol cymuned, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, gofynnir i'r datblygwyr baratoi Datganiad Ieithyddol.</p> <p>2.2.8 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn paratoi Canllawiau Cynllunio Ategol i roi cyfarwyddyd manwl ar faterion perthnasol, gan gynnwys sut orau i fesur 'effaith ar iaith' a sut i baratoi Datganiad Ieithyddol.</p> <p>2</p>
Ynys Môn	Adroddiad yr Arolygydd wedi'i gyhoeddi.	<p><i>Newidiadau Arfaethedig (Hydref 2002) :</i>  Rhan 1 Polisi 3 – Iaith a Diwylliant.  <b>PO3. Bydd yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn cael eu hybu a'u gwarchod drwy ganiatáu datblygiadau sy'n helpu i gryfhau'r cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned.</b>  Pennod 10a – Cynllunio a'r iaith Gymraeg  Cyfiawnhad ar sail rhesymau yng nghyswllt Strategaeth, Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion y Cynllun Datblygu Unedol a Pholisiâu Rhan Un rhifau 1, 2, 3 a 7.  a) Cefndir  10a.1 Defnyddir yr iaith Gymraeg ar hyd a lled Ynys Môn, er bod dwysedd y defnydd hwnnw yn amrywio rhwng gwahanol gymunedau. Gall pobl o bob cefndir ieithyddol gefnogi a chyfrannu at les yr iaith ar yr Ynys yn y dyfodol. Pan gynhaliwyd Cyfrifiad 1991, yr oedd tua 62% o'r boblogaeth 3+ oed ar yr Ynys yn siaradwyr</p>

		<p>Cymraeg. Yr oedd tua 40% o gymunedau'r Ynys yn dod o fewn ardaloedd lle'r oedd 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (gweler y map isod).</p> <p>10a.2 Mae'r cymunedau hynny lle'r oedd y siaradwyr Cymraeg yn y mwyaf, a'r iaith yn rhan gyffredin o fywyd bob dydd, yn cael eu disgrifio'n gyffredinol fel rhai o fewn 'Y Fro Gymraeg'. Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn rhoi arwydd o'r newid patrwm mewn perthynas â'r iaith Gymraeg dros amser.</p> <p>10a.3 Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn ystod paratoi'r Cynllun Datblygu Unedol hwn i'r perwyl y dylai strategaeth dai ac aneddiadau'r Cynllun gael ei chreu o gwmpas y patrymau ieithyddol ar yr Ynys, a rhoi gwarchodaeth arbennig i gymunedau traddodiadol Gymraeg eu hiaith. Nid yw strategaeth y Cynllun Unedol wedi gwneud hynny. Y strategaeth a ddewiswyd yw un o hybu cymunedau cynaliadwy. Amcan y Cynllun yw hybu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trefi a phentrefi, gan gynnwys y defnydd o'r iaith Gymraeg, yn hytrach na datblygu strategaeth o gwmpas un nodwedd arbennig sy'n perthyn i'r cymunedau dan sylw.</p> <p>10a.4 Er bod nifer gynyddol o bobl wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r system addysg ddwyieithog, lleisir ofnau ynghylch dyfodol yr iaith fel iaith gymunedol. Ni sefydlwyd yn glir i ba raddau y mae penderfyniadau cynllunio defnydd tir yn unig yn ganolog i dynged yr iaith, ac nid ffactorau eraill fel allfudo economaidd ac addysgol, neu'r cyfryngau er enghraifft.</p> <p>b) Polisi Cynllunio</p> <p>10a.5 Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) 'dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei lles'. Mae Nodyn Cyngor Technegol TAN20 yn rhoi mwy o fanylion ar yr elfen bolisi hon.</p> <p>10a.6 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) yn sôn yn benodol am 'ddosbarthu a chyflwyno datblygiadau tai yn raddol gan ystyried i ba raddau y gall gwahanol ardaloedd a chymunedau addasu i ddatblygiad fel nad yw'n erydu sefyllfa'r iaith Gymraeg'.</p> <p>10a.7 Felly, mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ystyried yr iaith Gymraeg drwy ddefnyddio ystyriaeth o iaith fel un dylanwad ar gynigion polisiâu tir y Cynllun yng nghyswllt aneddiadau, tai a chyflogaeth ar draws yr Ynys. Yr oedd yr iaith yn un o'r ffactorau a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad o gynaliadwyedd sy'n cynnal y Cynllun, er nad oedd techneg benodol ar gael i asesu effaith polisiâu ar y ffactor iaith.</p> <p>c) Strategaeth y Cynllun</p> <p>10a.8 Ar Ynys Môn, cymhlethir sefyllfa'r iaith Gymraeg ymhellach gan y lleihad cyffredinol ym maint y boblogaeth a'r newidiadau cysylltiedig yn y proffil oed. Mae'r broses o leihad poblogaeth fel un sy'n effeithio ar gymunedau lleol, ynddi ei hun, yn fgythiad i les yr iaith Gymraeg yn y dyfodol. Y strategaeth a ddewiswyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Unedol hwn (Rhan Un) yw cymryd camau rhagweithiol i atal a gwrth-droi y dirywiad hwn.</p> <p>10a.9 Yn enwedig, mae strategaeth y Cynllun yn cydnabod bod angen dull cadarnhaol o ymdrin â datblygu economaidd cynaliadwy er mwyn creu'r amodau a fydd yn meithrin cymunedau byrlymus sy'n apelio at</p>
--	--	--

		<p>bobl leol, ac er mwyn gwrth-droi'r duedd i allfudo a, thrwy hynny, annog cadw a thwff yr iaith Gymraeg yn yr ardal. Gall pobl o bob cefndir ieithyddol gyfrannu at gwrdd â'r her economaidd hon ac ni fydd y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio ar sail eu gallu ieithyddol.</p> <p>10a.10 Y materion allweddol ar yr Ynys yng nghyswllt cynllunio a'r iaith, felly, yw lleoliad, maint a chyflwyniad graddol unrhyw ddatblygiad. Yn gyffredinol, mae'r strategaeth dai ac aneddiadau yn seiliedig ar egwyddor o ganiatáu twf yn niferoedd tai sy'n gymesur â maint yr anheddiad. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw ran arbennig o'r Ynys yn wynebu unrhyw newid cyflym gan felly sicrhau bod yr effaith ar y patrymau ieithyddol ar yr Ynys yn cael ei lliniaru.</p> <p>10a.11 Bydd angen ateb cwestiynau cymhleth er mwyn canfod yn union sut y bydd penderfyniad defnydd tir penodol yng nghyswllt cais cynllunio yn effeithio ar sefyllfa'r iaith Gymraeg, oni bai fod y datblygiad dan sylw mor fawr fel y byddai'n amlwg yn cael effaith negyddol ar strwythur neu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gydag awdurdodau unedol eraill i weld a ellir datblygu methodoleg (neu 'becyn adnoddau') ar gyfer gwneud hyn.</p> <p>ch) Polisiâu'r Cynllun Datblygu Unedol</p> <p>10a.12 Gweithredir Rhan Un polisi strategol 3 yng nghyswllt iaith a Diwylliant drwy gyfrwng nifer o bolisiâu cysylltiedig a'u hintegreiddiad yn strategaeth gyffredinol y Cynllun. Gellir disgrifio'r rhain fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Dull cadarnhaol o alluogi datblygu economaidd cynaliadwy mewn cymunedau ar draws yr Ynys (Rhan Un Polisi 1 a phennod 11).</li> <li>2) Strategaeth aneddiadau a hierarchaeth sy'n cydnabod y dyrennir ond cyfran gymharol fach o ddatblygu (lle i tua 5 o dai) i'r rhan fwyaf o bentrefi, a lle mae'r pentrefannau / clystyrau yn cael eu rheoleiddio drwy ystyried ceisiadau am un tŷ ar y tro yn unig. Mae'r prif drefi a'r trefi llai yn derbyn cyfran resymol o ddatblygu i gwrdd â'u rôl yn yr hierarchaeth aneddiadau. (Rhan Un Polisi 2 a phennod 16).</li> <li>3) Caniatáu prosiectau seilwaith cymdeithasol sy'n cynyddu apêl cymunedau ac, felly, yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy o ran eu demograffeg.</li> <li>4) Hybu diwydiannau twristiaeth cynaliadwy (Rhan Un Polisi 7 a phennod 13). Y ffactorau cyffredinol y gall y system cynllunio defnydd tir ddylanwadu arnynt yw rhai yng nghyswllt :</li> <li>5) graddfa gyffredinol datblygiadau mewn cymunedau (niferoedd tai a maint / lleoliad tir cyflogaeth) a</li> <li>6) lleoliad datblygiadau yn fras (strategaeth aneddiadau a chyflogaeth) a</li> <li>7) nifer y tai fforddiadwy, ateb yr angen am dai yn Ardal y Cynllun yn ôl canlyniad yr arolwg anghenion tai, a chreu cyfleoedd i bobl ifanc gael byw yn lleol, a</li> <li>8) cynnal apêl y strwythur cymdeithasol a gweledol mewn cymunedau lleol fel bod pobl yn dewis byw yn y trefi a'r pentrefi hynny.</li> </ol> <p><i>Newidiadau Arfaethedig Pellach (Mawrth 2003):</i> Rhan Un Polisi 3 – Iaith a Diwylliant.</p> <p><b>PO3. Bydd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu hybu a'u diogelu drwy ganiatáu datblygiadau sy'n helpu i gryfhau'r cymunedau hynny lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead</b></p>
--	--	---



		<p><b>cymdeithasol y gymuned a thrwy wrthod datblygiadau a fyddai'n debygol o fod yn andwyol i sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y gymuned.</b></p> <p><i>Adroddiad yr Arolygydd (Awst 2004)</i>  <i>Gwnaed nifer o sylwadau gan y Cyngor a'r Arolygydd – dyfynnir y canlynol o Adroddiad yr Arolygydd:</i></p> <p>5.1 Y dylid diwygio Polisi PO3 drwy ddileu'r geiriau 'ac atal datblygiadau amhriodol' yn unol â Pholisi PC20 ond hefyd gan ychwanegu'r frawddeg ganlynol: 'Ni fydd datblygiadau a fyddai'n cael effaith sylweddol andwyol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymuned yn cael eu caniatáu'.</p> <p>5.2 Y dylid diwygio'r Cynllun wedi'i Adneuo drwy gynnwys Pennod 10a newydd fel a nodir yn PC31 ac yn amodol ar y diwygiadau canlynol.</p> <p>5.3 Y dylid diwygio paragraff 10a.4 yn PC31 drwy ddileu'r ail frawddeg a rhoi'r canlynol yn ei lle: 'Nid penderfyniadau cynllunio defnydd tir yw'r unig ffactorau sy'n gyfrifol am iechyd yr iaith yn y dyfodol, gan fod ffactorau economaidd, addysgol a diwylliannol hefyd yn gwneud eu rhan. Er hynny, gall penderfyniadau cynllunio gyfrannu'n fuddiol at les yr iaith, ac adlewyrchir hyn ym mholisiau'r Cynllun.</p> <p>5.4 Y dylid dileu paragraff 10a.6 yn PC31.</p> <p>5.5 Y dylid ychwanegu paragraff newydd at Bennod newydd 10a, i ddilyn paragraff 10a.11 fel a ganlyn: 'Er mwyn asesu effaith debygol datblygiadau arfaethedig, ar wahân i gynigion gan gartrefi unigol neu fân gynigion datblygu eraill, ar yr iaith Gymraeg, gofynnir i ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio ddarparu gwybodaeth am effaith eu cais ar y defnydd o'r iaith yn y gymuned dan sylw.</p> <p>4.1 Y dylid diwygio Polisi PO3 yn y Cynllun wedi'i Adneuo drwy ddileu'r geiriau 'ac atal datblygiadau amhriodol' mewn ymateb i'r gwrthwynebiad hwn.</p>
<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</p>	<p>Cynllun Lleol wedi'i fabwysiadu – dim Cynllun Datblygu Unedol ★</p>	<p><i>Dim polisiâu iaith Gymraeg yn y Cynllun Lleol.</i></p>
<p>Cyngor Sir Fynwy</p>	<p>Yn y cam Newidiadau Cyn Ymchwiliad (Rhagfyr 2003)</p>	<p><i>Dim polisiâu iaith Gymraeg, ond dyma a ddywedir yn y rhagarweiniad i'r Cynllun Datblygu Unedol:</i>  Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithas mewn cymunedau yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn ystyried bod yna gymunedau yn Sir Fynwy lle dylid ystyried yr iaith Gymraeg yng nghyswllt cynllunio.</p>
<p>Cyngor Sir Castell Nedd Port Talbot</p>	<p>Yn y cam Newidiadau Cyn Ymchwiliad (2005)</p>	<p><b>Polisi CS3 – Yr iaith Gymraeg</b>  <b>Disgwylir i gynigion a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar gymeriad ieithyddol cymunedau yng nghymoedd Tawe, Aman a Thwrch gynnwys asesiad o effaith ar iaith ynghyd â mesurau priodol i liniaru unrhyw effeithiau andwyol.</b>  10.7.1 O fewn yr ardal o gwmpas Cwm Tawe Uchaf yn bennaf, mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd bwysig o fywyd y gymuned. Lle gallai cynigion datblygu gael effaith sylweddol ar yr iaith yn y gymuned, gan gynnwys</p>

		<p>denu siaradwyr di Gymraeg i brynu tai newydd, bydd angen asesiad o effaith ar iaith. Ni ddylai hyn ganolbwyntio'n unig ar faterion ieithyddol, ond dylid eu gosod yng nghyd-destun problemau eraill y mae'r gymuned yn eu hwynebu. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i helpu datblygwyr yn y cyswllt hwn.</p> <p>10.7.2 Dylai asesiad o'r fath geisio darganfod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• i ba raddau y mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd o'r gymuned;</li> <li>• yr effaith ar ysgolion ac ysgolion meithrin cyfrwng Cymraeg a'r tebygolrwydd y byddent yn gallu addasu i'r effaith yn foddhaol;</li> <li>• yr effeithiau tebygol ar gymeriad ieithyddol y gymuned;</li> <li>• unrhyw fesurau lliniaru priodol;</li> <li>• problemau a wynebir gan y gymuned, gan gynnwys a fyddai'r cais datblygu yn helpu i gynnal cyfleusterau a gwasanaethau a allai fod o dan fygythiad.</li> </ul>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd	Yn aros am adroddiad yr Arolygydd.	<i>Dim polisiâu iaith Gymraeg.</i>
Cyngor Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cynigion ar gyfer Newidiadau (2003 & 2004)	<p>7.6.5 Mae Sir Benfro yn sir ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn mwynhau statws cyfartal yn ôl polisi'r llywodraeth. Yn ôl Cyfrifiad Poblogaeth 2001, yr oedd 26,367 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro ar y cyfan, sef 23.93% o'r boblogaeth. Dengys y ffigur hwn gynnydd o 5.6% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir ers 1991. Mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n helaeth o un ardal i'r llall fel a ddangosir yn Ffigur 12. Yng ngogledd y Sir, mae'r gyfran mor uchel â 75% yng Nghwm Gwaun, lle mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu naturiol i bob pwrpas. Ar y llaw arall, mae hanes y cymunedau yn ne'r Sir yn dra gwahanol, a'r Saesneg yw iaith gyntaf y rhan fwyaf o'r bobl yno. Er enghraifft, dim ond 4% o siaradwyr Cymraeg sydd yn ardal Cyngor Cymuned Manorbier.</p> <p><b>Polisi 121 Yr Iaith Gymraeg</b>  <b>Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd nifer o gymunedau yn y Sir. Ni chaniateir datblygu lle mae ei natur, maint neu fath yn debygol o fod yn andwyol i fuddiannau'r iaith Gymraeg yn y gymuned. Efallai y bydd angen cyflwyno cynigion datblygu fesul cam fel bo'r datblygiad newydd yn ymddodi'n raddol ac yn naturiol i'r gymuned.</b></p> <p>7.6.5 Mae Sir Benfro yn sir ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn mwynhau statws cyfartal yn ôl polisi'r llywodraeth. Yn ôl Cyfrifiad Poblogaeth 2001, yr oedd 26,367 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro ar y cyfan, sef 23.93% o'r boblogaeth. Dengys y ffigur hwn gynnydd o 5.6% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir ers 1991. Mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n helaeth o un ardal i'r llall fel a ddangosir yn Ffigur 12. Yng ngogledd y Sir, mae'r gyfran mor uchel â 75% yng Nghwm Gwaun, lle mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng cyfathrebu naturiol i bob pwrpas. Ar y llaw arall, mae hanes y cymunedau yn ne'r Sir yn dra gwahanol, a'r Saesneg yw iaith gyntaf y rhan fwyaf o'r bobl yno. Er enghraifft, dim ond 4% o siaradwyr Cymraeg sydd yn ardal Cyngor Cymuned Manorbier.</p>

		<p>7.6.6 Mae cyngor y Llywodraeth ar faterion iaith Gymraeg ar gael yn Nodyn Cyngor Technegol TAN20, sy'n dweud 'y dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gall gyfrannu at ei lles. Mewn datganiad polisi a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2002, cyngor Llywodraeth y Cynulliad oedd ei bod yn gwbl ymrwymedig i adfywio'r iaith Gymraeg ac i greu Cymru ddwyieithog. Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, nod y polisi hwn yw ceisio cydnabod a diogelu rôl y Gymraeg yn y cymunedau hynny lle mae'r iaith yn rhan bwysig o'r gwead cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y polisi fel arfer yn berthnasol mewn ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref lle mae dros 50% o'r boblogaeth yn Gymraeg ei hiaith, yn ôl ffigurau Cyfrifiad. Lle nad yw'r cyfartalog yn y gymuned yn adlewyrchu crynodiadau o siaradwyr Cymraeg mewn pentrefi yn yr ardal Cyngor Cymuned neu Dref dan sylw, bydd angen mesuriad mwy sensitif ac amodol. Fodd bynnag, efallai y bydd cymhwysiad hyn yn amrywio yn ôl y cyfarwyddyd a roddir mewn Canllawiau Cynllunio Atodol a ddatblygir ac a gyhoeddir. Ni ddylid dehongli'r polisi hwn fel un sy'n cyfiawnhau datblygiad ar y sail ei fod yn cyfrannu at ddiogelu'r iaith Gymraeg yn y gymuned yn unig, ond na fyddai fel arall yn dderbyniol. Lle gellir dangos yn rhesymol bod datblygiad, ar seiliau cynllunio (er enghraifft ar sail ei faint), yn cyflwyno bygythiad sylweddol i rôl a lles parhaus yr iaith Gymraeg yn y gymuned honno, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn defnyddio'i bwerau i wrthod cais o'r fath. Mae anghenion cymunedau yn Sir Benfro lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan o ddiwylliant a gwead y gymdeithas wedi eu hystyried fel rhan o'r broses o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi, er mwyn rhoi cyfarwyddyd manwl ar sut i farnu a ydyw'r defnydd o'r iaith yn rhan o wead cymdeithas yn ardal y Cynllun neu beidio; er mwyn hwyluso mesur effaith polisiâu a chynigion ar yr iaith Gymraeg ac er mwyn cynhyrchu Methodoleg ar gyfer Asesu'r Effaith ar yr iaith Gymraeg. Yn y cyfamser, efallai y bydd dull rhagofalus yn cael ei fabwysiadu os credir y byddai datblygiad yn cyflwyno bygythiad sylweddol i'r iaith mewn cymuned arbennig.</p> <p>7.6.7 Mewn cymunedau lle siaredir yr iaith Gymraeg yn bennaf, mae dyraniadau tir i godi nifer fawr o dai wedi eu cyflwyno'n raddol fel eu bod yn ymdoddi'n haws i'r gymuned. Er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael i gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith, gwnaed dyraniadau penodol mewn rhai mannau. Yn ogystal, mae polisiâu yn y Cynllun yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd mewn aneddiadau yn gyffredinol, ac yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio hen adeiladau.</p>
<p>Cyngor Sir Powys</p>	<p>Cynllun Datblygu Unedol drafft wedi'i adneuo (Hydref 2004)</p>	<p>3.9.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o wead cymdeithas yn y Sir. Ym 2001, yr oedd yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad gan 20.8% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu â ffigur o 20.5% ar gyfer Cymru gyfan. Mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg y Sir yn y grŵp oed 3 i 15 oed, gyda 39.7% yn gallu siarad yr iaith yn y grŵp hwn ym Mhowys. Gan ogledd a de-orllewin Powys y mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, er bod ganddi ei chadarnleoedd mewn rhai ardaloedd gwledig hefyd. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol bod ganddo rôl gyda chynnal a meithrin treftadaeth yr iaith Gymraeg ac wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n berthnasol i'w holl wasanaethau. Yn unol â hyn, ystyrir bod hybu a diogelu'r iaith Gymraeg yn fater polisi pwysig i Gyngor Sir Powys.</p> <p>3.9.2 O safbwynt cynllunio defnydd tir, mae'n bwysig bod datblygiadau yn y dyfodol yn cael eu hasesu i sicrhau</p>

		<p>bod anghenion a buddiannau cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael eu cynnal ac nid eu niweidio, a chaiff hyn ei gydnabod gan Lywodraeth y Cynulliad yn Nodyn Cyngor Technegol TAN20 ar yr iaith Gymraeg (Mehefin 2000). Felly hefyd, mae Polisi Cynllunio Cymru 2002 yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg 'yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru', ac y gall cynllunio defnydd tir gyfrannu at ei lles drwy ddatblygu strategaethau defnydd tir sy'n ystyried effeithiau posibl datblygiadau newydd ar yr iaith Gymraeg. Wrth ddatblygu strategaethau o'r fath, barn Llywodraeth y Cynulliad yw: '...y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o wead y gymdeithas ac, os oes, ei bod yn briodol iddynt ystyried hyn pan yn llunio polisiâu defnydd tir. (Polisi Cynllunio Cymru, 2002, tudalen 28, paragraff 2.10.2).</p> <p>3.9.3 Fodd bynnag, mae'r ddogfen hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau na ddylai polisiâu geisio gwahaniaethu yn erbyn anghenion unigol ar sail eu gallu ieithyddol ac na ddylent, er enghraifft, geisio rheoli meddiannaeth tai ar seiliau iaith. I'r perwyl hwn, mae Hierarchaeth Aneddiadau Strategol Cynaliadwy'r Cyngor yn sicrhau bod datblygiadau tai ac eraill yn briodol i gymeriad, maint a lleoliad yr anheddiad. Felly hefyd, mae Polisi Strategol SP1 yn y Cynllun Datblygu Unedol, yng nghyswllt Cynaliadwyedd Cymdeithasol, Cymunedol a Diwylliannol hefyd yn cydnabod bod angen ystyried cynigion datblygu newydd yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd y gymuned.</p> <p>3.9.4 Ym Mhowys, mae rhai cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd gymdeithasol a chymunedol amlwg. Felly, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 2002, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull rhagofalus gyda'r nod o ddiogelu'r cymunedau hynny lle credir bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i nodweddion cymdeithasol a diwylliannol bywyd y gymuned. I'r perwyl hwn, mae'r cymunedau canlynol wedi eu nodi gan y Cyngor fel rhai sy'n rhan o'r fro ddiwylliannol Gymraeg a bod yr aneddiadau oddi mewn iddynt angen sylw polisi cynllunio arbennig i amddiffyn eu nodweddion cymunedol Cymreig. Y cyfiawnhad dros hyn yw bod 30% neu fwy o'u poblogaeth breswyl rhwng tair oed a throsodd yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2001).</p> <table border="0" data-bbox="882 1043 1630 1257"> <tr> <td>Banwy</td> <td>Llanfair Caereinion</td> <td>Llanwddyn</td> </tr> <tr> <td>Cadfarch</td> <td>Llanfihangel</td> <td>Machynlleth</td> </tr> <tr> <td>Carno</td> <td>Llanfyllin</td> <td>Penybontfawr</td> </tr> <tr> <td>Dwyrw</td> <td>Llangyniew</td> <td>Tawe Uchaf</td> </tr> <tr> <td>Glantwymyn</td> <td>Llangynog</td> <td>Trefeglwys</td> </tr> <tr> <td>Llanbrynmair</td> <td>Llanrhaeadr-ym-Mochnant</td> <td>Ystradgynlais</td> </tr> <tr> <td>Llanerfyl</td> <td>Llansilin</td> <td></td> </tr> </table> <p>3.9.5 O ganlyniad, lle mae'r Cyngor wedi nodi aneddiadau lle bernir bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol, gallai'r Cyngor ofyn am drefniadau a fyddai'n rhwymo datblygwyr yn gyfreithiol i sicrhau bod eu datblygiadau yn ystyried yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn yr aneddiadau hyn. Mae'r Cyngor yn ystyried mai'r materion allweddol yng nghyswllt cynllunio</p>	Banwy	Llanfair Caereinion	Llanwddyn	Cadfarch	Llanfihangel	Machynlleth	Carno	Llanfyllin	Penybontfawr	Dwyrw	Llangyniew	Tawe Uchaf	Glantwymyn	Llangynog	Trefeglwys	Llanbrynmair	Llanrhaeadr-ym-Mochnant	Ystradgynlais	Llanerfyl	Llansilin	
Banwy	Llanfair Caereinion	Llanwddyn																					
Cadfarch	Llanfihangel	Machynlleth																					
Carno	Llanfyllin	Penybontfawr																					
Dwyrw	Llangyniew	Tawe Uchaf																					
Glantwymyn	Llangynog	Trefeglwys																					
Llanbrynmair	Llanrhaeadr-ym-Mochnant	Ystradgynlais																					
Llanerfyl	Llansilin																						

		<p>a'r iaith Gymraeg yw lleoliad, maint a chyflwyno datblygiad fesul cam. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ystyried yr iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r ystyriaeth iaith fel un dylanwad ar gynigion polisi tir ar gyfer aneddiadau, tai a chyflogaeth. O ran darparu tai, un ffordd y gall y datblygwr ddangos ei fod wedi ystyried yr iaith yw drwy sicrhau bod o leiaf 35% o'r tai a ganiateir yn gartrefi fforddiadwy ar gyfer aelwydydd lleol sy'n cwrdd â'r meini prawf fforddiadwyedd ym Mholisi HP10. Bydd penderfynu pa gyfran o ddatblygiad tai a gedwir i'r pwrpas hwn yn fater i'w negodi. Ni fyddai'r trefniant hwn yn ceisio cyfyngu meddiannaeth ar sail gallu ieithyddol ond, yn hytrach, yn cydnabod bod y rhai a fyddai'n cwrdd â'r meini prawf fforddiadwyedd yn fwy tebygol o fod yn gallu cynnal yr iaith a'r diwylliant Cymreig. Mae colli cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol hefyd yn gallu gwneud niwed mawr a pharhaol i gymeriad cymunedau a gallai hyn fod yn waeth mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith lle mae'r cydbwysedd ieithyddol a diwylliannol yn fregus.</p> <p>3.9.6 Mae'r Cyngor wedi cyfrannu at Astudiaeth o Effaith ar iaith, sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd. Bydd canlyniadau'r astudiaeth, ynghyd â chanlyniadau Cyfrifiad 2001, y broses Cynllunio Cymunedol a iaith Pawb : Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog (Llywodraeth y Cynulliad, 2003) yn cael eu defnyddio i baratoi canllawiau cynllunio atodol. Bydd y rhain yn rhoi cyfarwyddyd manwl ar sut orau i fesur 'niwed sylweddol' i iaith, a sut y gall datblygiadau gyfrannu at les yr iaith Gymraeg. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth yma i baratoi adroddiadau monitro ar effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ym Mhowys.</p> <p><b>Polisi GP5 – Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig</b>  Yn yr aneddiadau canlynol, mae'r iaith Gymraeg wedi ei chydabod i fod yn rhan bwysig o'r gwedd cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol, a dylai fod yn ystyriaeth bwysig pan yn penderfynu ceisiadau datblygu. Yn yr aneddiadau hyn, bydd y Cyngor yn gofyn i ddatblygwyr ddangos sut y maent wedi ystyried yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn eu cynigion. Bydd cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn cael eu gwrthod.</p> <table border="0"> <tr> <td><b>Abercegir</b></td> <td><b>Dolanog</b></td> <td><b>Llanwddyn</b></td> </tr> <tr> <td><b>Abercraf</b></td> <td><b>Derwenlas</b></td> <td><b>Llanwrin</b></td> </tr> <tr> <td><b>Aberhosan</b></td> <td><b>Esgairgeiliog Ceinws</b></td> <td><b>Llawr Y Glyn</b></td> </tr> <tr> <td><b>Abertridwr</b></td> <td><b>Foel</b></td> <td><b>Cwmtwrch Isaf</b></td> </tr> <tr> <td><b>Adfa</b></td> <td><b>Forge</b></td> <td><b>Machynlleth</b></td> </tr> <tr> <td><b>Bont Dolgadfan</b></td> <td><b>Glantwymyn</b></td> <td><b>Penegoes</b></td> </tr> <tr> <td><b>Cae Hopkin</b></td> <td><b>Gurnos</b></td> <td><b>Penrhos</b></td> </tr> <tr> <td><b>Caer Bont</b></td> <td><b>Llan</b></td> <td><b>Penybontfawr</b></td> </tr> <tr> <td><b>Caer Lan</b></td> <td><b>Llanbryn-mair</b></td> <td><b>Pontrobert</b></td> </tr> <tr> <td><b>Carno</b></td> <td><b>Llanerfyl</b></td> <td><b>Talerddig</b></td> </tr> <tr> <td><b>Cefn Coch</b></td> <td><b>Llanfair Caereinion</b></td> <td><b>Trefeglwys</b></td> </tr> <tr> <td><b>Cemmaes</b></td> <td><b>Llanfihangel</b></td> <td><b>Cwmtwrch Uchaf</b></td> </tr> </table>	<b>Abercegir</b>	<b>Dolanog</b>	<b>Llanwddyn</b>	<b>Abercraf</b>	<b>Derwenlas</b>	<b>Llanwrin</b>	<b>Aberhosan</b>	<b>Esgairgeiliog Ceinws</b>	<b>Llawr Y Glyn</b>	<b>Abertridwr</b>	<b>Foel</b>	<b>Cwmtwrch Isaf</b>	<b>Adfa</b>	<b>Forge</b>	<b>Machynlleth</b>	<b>Bont Dolgadfan</b>	<b>Glantwymyn</b>	<b>Penegoes</b>	<b>Cae Hopkin</b>	<b>Gurnos</b>	<b>Penrhos</b>	<b>Caer Bont</b>	<b>Llan</b>	<b>Penybontfawr</b>	<b>Caer Lan</b>	<b>Llanbryn-mair</b>	<b>Pontrobert</b>	<b>Carno</b>	<b>Llanerfyl</b>	<b>Talerddig</b>	<b>Cefn Coch</b>	<b>Llanfair Caereinion</b>	<b>Trefeglwys</b>	<b>Cemmaes</b>	<b>Llanfihangel</b>	<b>Cwmtwrch Uchaf</b>
<b>Abercegir</b>	<b>Dolanog</b>	<b>Llanwddyn</b>																																				
<b>Abercraf</b>	<b>Derwenlas</b>	<b>Llanwrin</b>																																				
<b>Aberhosan</b>	<b>Esgairgeiliog Ceinws</b>	<b>Llawr Y Glyn</b>																																				
<b>Abertridwr</b>	<b>Foel</b>	<b>Cwmtwrch Isaf</b>																																				
<b>Adfa</b>	<b>Forge</b>	<b>Machynlleth</b>																																				
<b>Bont Dolgadfan</b>	<b>Glantwymyn</b>	<b>Penegoes</b>																																				
<b>Cae Hopkin</b>	<b>Gurnos</b>	<b>Penrhos</b>																																				
<b>Caer Bont</b>	<b>Llan</b>	<b>Penybontfawr</b>																																				
<b>Caer Lan</b>	<b>Llanbryn-mair</b>	<b>Pontrobert</b>																																				
<b>Carno</b>	<b>Llanerfyl</b>	<b>Talerddig</b>																																				
<b>Cefn Coch</b>	<b>Llanfair Caereinion</b>	<b>Trefeglwys</b>																																				
<b>Cemmaes</b>	<b>Llanfihangel</b>	<b>Cwmtwrch Uchaf</b>																																				

		Coelbren Commins Coch Cwm Llinau Cwmgiedd Darowen	Llanfyllin Llangadfan Llangynog Llanrhaeadr ym Mochnant Llansilin	Ystradgynlais Ynys Isaf Ynys Uchaf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Dim Cynllun Datblygu Unedol wedi'i gyhoeddi *			
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Dim Cynllun Datblygu Unedol wedi'i gyhoeddi, ond mae Cynllun Lleol Eryri yn cynnwys y polisi canlynol: *	<p>Diogelu Hunaniaeth Leol</p> <p>2.21 Rhaid i bolisiâu cynllunio yn Eryri fod yn berthnasol i'r bobl sy'n byw yn yr ardal a'r ffordd o fyw yn y cymunedau gwledig Cymreig. Wrth i gymunedau newid, fodd bynnag, newid hefyd y mae'r cysylltiadau oddi mewn iddynt. Os yw cymeriad ardal i gael ei ddiogelu, yna rhaid hefyd amddiffyn y diwylliant a'r traddodiadau sy'n eu clymu ynghyd a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, eu cryfhau pan fydd newid yn digwydd.</p> <p>2.22 Yn sgîl y chwyldro tai ar ddiwedd y 1970au a'r 1980au, gwelwyd mewnfudo sylweddol gan boblogaeth sy'n amrywio'n fawr iawn o ran ei gallu, ei thuedd a'i hawydd i addasu i ddiwylliant lleol a mabwysiadu hunaniaeth newydd. Mewn rhai ardaloedd, mae'r newydd wedd llwyr ar gymunedau lleol wedi creu gofid a thensiynau i'r fath raddau fel bod datblygu pellach dilyffethair ynghyd â pharhad y mewnfudo yn cael ei weld fel bygythiad i'w hunaniaeth a'u gwerthoedd traddodiadol.</p> <p>2.23 Er gwaethaf hyn, nid oes amheuaeth bod mewnfudo hefyd wedi dod â chryn fanteision i'r ardal. Mae twf y boblogaeth wedi helpu i ddiogelu a chreu galw am siopau a gwasanaethau lleol, wedi cadw ysgolion pentref ar agor a hyd yn oed wedi helpu i adfer adeiladau segur a threftadaeth adeiledig yr ardal.</p> <p>2.24 Oherwydd y traddodiadau diwylliannol a ieithyddol lleol cryf yn y Parc Cenedlaethol, rhaid ystyried canlyniadau unrhyw newid, a'r effaith ar y gwerthoedd hyn, pan yn asesu datblygiadau newydd. Yn ôl canllawiau'r Llywodraeth, mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio bwysig a pherthnasol yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae'r iaith Gymraeg yn dal i gael ei siarad yn eang. Yn Eryri, mae 65% o'r boblogaeth breswyl yn siarad Cymraeg a rhaid i bolisiâu'r Cynllun hwn geisio diogelu eu traddodiadau lleol a'u gwerthoedd diwylliannol. Gallai hyn olygu, mewn rhai amgylchiadau, y bydd datblygiadau yn cael eu gwrthod neu'n cael eu caniatáu ar amodau arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r system gynllunio fel arfer yn ymwneud â pherchnogaeth neu â phwy fydd yn meddiannu datblygiad arfaethedig, neu â pha iaith a siaredir ganddynt. Nid yw Polisi PC6 na'r un o'r polisiâu eraill yn y Cynllun hwn, felly, yn ymwneud â pha iaith a siaredir gan ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio, neu gan ddeiliaid unigol unrhyw ddatblygiad newydd. Ychwaith, ni fydd yr iaith a siaredir gan ymgeisydd yn chwarae unrhyw ran yn y penderfyniad ynghylch cais cynllunio.</p> <p><b>PC 6</b> Pan yn penderfynu pob cais cynllunio, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ac ni fydd yn caniatáu datblygiad a fyddai, oherwydd ei faint neu natur, yn</p>		

		<b>arwain at lefelau anghymesur o fewnfudo lle gellir dangos y byddai hyn yn debygol o niweidio cymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned sy'n bennaf Gymraeg ei hiaith.</b>
Dinas a Sir Abertawe	Drafft Ymgynghorol ar y Cynllun Datblygu Unedol (Mawrth 2003)	<i>Dim polisiâu iaith Gymraeg yn y drafft ymgynghorol. Mewn ymateb i sylwadau hyd yma, maent wedi cytuno i ystyried cynnwys polisi yn y Cynllun wedi'i Adneuo.</i>
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Dim Cynllun Datblygu Unedol – papur materion wedi'i gyhoeddi (2000) *	<i>Dim sôn am yr iaith Gymraeg.</i>
Cyngor Bro Morgannwg	Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu (2005)	<i>Dim polisiâu iaith Gymraeg.</i>



<p>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</p>	<p>Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu (Chwefror 2005)</p>	<p><b>Polisi GDP1 Dylai pob datblygiad newydd:-</b></p> <p>a) Sicrhau bod ei ddatblygiad adeiledig o ran maint, dyluniad a gosodiad, ac yn ei ddefnyddiau a'i dirlunio, yn gydnaws â chymeriad y safle ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i edrychiad yr ardal gyfagos.</p> <p>b) Ystyried diogelwch personol a chymunedol yn nyluniad a gosodiad cynigion i ddatblygu mannau cyhoeddus / preifat.</p> <p>c) Gwneud y defnydd gorau o dechnegau dylunio, lleoli a gogwydd er mwyn arbed adnoddau ynni a dŵr.</p> <p>ch) Sicrhau mynediad diogel a hwylus i gerddwyr a cherbydau i ac o safleoedd datblygu, ar y safle ei hun ac yn yr ardal gyfagos.</p> <p>d) Sicrhau bod datblygiadau adeiledig yn cael eu lleoli lle ceir mynediad hwylus at gyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus, a'u bod yn agos at lwybrau cerdded a beicio lle bynnag y bo hynny'n bosibl.</p> <p>dd) Sicrhau diogelwch a mwynder y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau andwyol unrhyw lygredd dŵr, tir neu aer, peryglon o ddiwydiant a chwareli, ac unrhyw sŵn, arogl neu ddirgryniadau cysylltiedig yn deillio o'r datblygiad.</p> <p>e) Sicrhau gwasanaethau cyhoeddus (e.e. nwy, dŵr, trydan) ar gyfer y datblygiad am y gost leiaf i'r cyhoedd.</p> <p>f) Diogelu safleoedd ac ardaloedd o ddiddordeb cadwraeth natur a bywyd gwyllt, a chreu cynefinoedd newydd lle na ellir osgoi colli cynefinoedd ac ardaloedd o ddiddordeb bywyd gwyllt presennol.</p> <p>ff) Sicrhau nad yw'r datblygiad yn arwain at, neu'n agored i lifogydd, erydiad pridd, tirlithriad neu halogi, naill ai ar neu oddi ar y safle.</p> <p>g) Ystyried bod angen diogelu'r ardaloedd hynny sydd â hunaniaeth ieithyddol a / neu ddiwylliannol gref rhag datblygiad a allai niweidio'r hunaniaeth hon.</p> <p>h) Sicrhau y datblygir cymunedau cynaliadwy, drwy hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.</p> <p><b>4.3</b> Mae cymeriad unigryw rhannau o'r Bwrdeistref Sirol yn deillio o'i dirwedd a'i ddiwylliant Cymreig. Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o fywyd beunyddiol nifer o'r trigolion lleol ac yn ffactor allweddol yng ngwead cymdeithasol cymunedau fel Dyffryn Ceiriog, Rhos / Johnstown, Penycae, Coedpoeth a Mwynglawdd. Ni all diogelu a choleddu'r hunaniaeth ddiwylliannol a ieithyddol hon ddigwydd ar ei ben ei hun – dylai fod ynghlwm wrth yr economi leol a chadwraeth y tirwedd.</p>
---	--	---

- \* Mae'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Unedol wedi dod i ben yn yr Awdurdodau hyn.
- ✚ Sylwadau'r Awdur yw'r testun mewn teip italaidd.

## ENGHREIFFTIAU O ACHOSION APELIADAU CYNLLUNIO

1. Ychydig iawn o apeliadau sy'n codi lle defnyddir yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig fel rheswm dros wrthod caniatâd cynllunio. Ym 2004, yn dilyn chwilio drwy'r archif o achosion apêl, cafwyd ond 27 o benderfyniadau apêl yn y 18 mlynedd diwethaf lle'r oedd yr iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth berthnasol.

### Achosion Llwyddiannus

2. Mae un o'r enghreifftiau cynharaf yn dyddio'n ôl i 1986 pan wrthododd gyn Gyngor Dosbarth Glyndŵr ganiatâd cynllunio i ddatblygu 1.5 hectar o dir i godi tai ym mhentref bychan Llanrhaeadr (Gogledd Cymru). Cyfeiriodd y rheswm dros wrthod at yr effaith andwyol a gâi ar gymeriad y pentref (noder: dim sôn penodol am yr iaith). Cyfeiriodd yr arolygydd at y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch 'Cymreictod' y pentref a daeth i'r casgliad nad oedd cyfiawnhad dros wrthod yr apêl yn unig ar y sail y byddai'r tai yn cael eu meddiannu gan siaradwyr di Gymraeg. Er hynny, rhoddodd gryn sylw i'r mater.

Gwrthodwyd yr apêl.

3. Ym 1990, gwrthododd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ganiatâd cynllunio ar gyfer 59 o dai ar dir yn Llangoed oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, y byddai'r datblygiad yn difetha cymeriad yr anheddiad (noder: eto, dim sôn penodol am yr iaith). Apeliodd y datblygwr. Drwy weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Ddiogelu Llangoed, cyflwynodd y Cyngor dystiolaeth i gefnogi ei ddadl bod Cymreictod y pentref yn elfen hanfodol o'i gymeriad. Ym 1991, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus, daeth yr arolygydd i'r casgliad hwn:

*"Mae Cymdeithas Ddiogelu Llangoed wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos twf y pentref yn y blynyddoedd diwethaf a'r lleihad yng nghyfran y trigolion di Gymraeg. Yn eu barn nhw, byddai stâd newydd o 59 o dai yn ddatblygiad rhy ddisymwth i'r Gymuned Gymreig frodorol obeithio gallu cadw eu ffordd o fyw a'u hiaith yn iach. Er fy mod yn fodlon y gallai'r gwasanaethau ar y ddaear dderbyn datblygiad o'r maint hwn, yr wyf yn rhannu pryder y trigolion lleol ynghylch gallu'r gymuned i ymgorffori cynnydd parhaus o hyd mewn datblygiadau cymharol fawr'.*

Gwrthodwyd yr apêl.

4. Ym 1990, gwrthododd Gyngor Bwrdeistref Aberconwy ganiatâd cynllunio ar gyfer stâd o dai ym mhentref Eglwysbach. Apeliodd y datblygwr a daeth yr arolygydd i'r casgliad:

*“Mae'n aneglur a fyddai gweithrediad y cais hwn hefyd yn achosi niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, ond nid oes amheuaeth bod risg ddifrifol y byddai. Pa bynnag mor weithgar yn y gymuned leol y deuai trigolion tai'r apêl i fod, pe byddent yn cynnwys, fel sy'n debygol yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd gyda datblygiadau eraill diweddar, cyfran uchel o siaradwyr di Gymraeg o'r tu allan i'r ardal, byddai cydbwysedd cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol y gymuned yn cael ei effeithio'n andwyol. Yn fy marn i, nid oes gan Eglwysbach heddiw, fel pentref cryn dipyn yn fwy lle mae ei Gymreictod wedi'i lastwreiddio'n sylweddol gan y cynnydd diweddar yn y boblogaeth anfrodorol, unrhyw gapasiti ar ôl i ymgorffori mewnlifiad pellach o'r bobl hyn heb amharu ar, a thrwy hynny, ddifetha ei gydbwysedd’.*

Gwrthodwyd yr apêl.

#### Achosion aflwyddiannus

5. Ym 1999, gwrthododd Cyngor Sir Gwynedd ganiatâd cynllunio ar gyfer stâd o dai ym mhentref Brynchrug oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, y byddai'r datblygiad yn effeithio ar gymeriad y gymuned leol. Apeliodd y datblygwr. Derbyniodd yr Arolygydd dystiolaeth y Cyngor bod, ym 1981, 20% o'r tai yn y pentref yn ail gartrefi ac er bod 64% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, mai dim ond 14 allan o 41 o blant yn yr ysgol leol oedd yn gallu siarad Cymraeg. Dadleuai'r Cyngor y byddai rhoi caniatâd i fwy o dai newydd nag oedd eu hangen yn lleol yn gwaethygu'r anhawster o sicrhau parhad yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, daeth yr arolygydd i'r casgliad:

*“...rhaid i benderfyniadau fod ar seiliau cynllunio ac yn rhesymol. Nid wyf yn ystyried bodolaeth 15 caniatâd cynllunio mewn pentref o faint Brynchrug i fod yn dystiolaeth ysgubol nad oes angen lleol...nac ychwaith y deuai'r tai hyn yn ail gartrefi.”*

Cafodd yr apêl ei ganiatáu.

6. Ym 1992, gwrthododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ganiatâd cynllunio ar gyfer stâd o dai yn y Bala oherwydd, ymhlith rhesymau eraill, yr effaith ar yr iaith a'r diwylliant Cymreig. Apeliodd y datblygwr. Daeth yr arolygydd i'r casgliad:

*“I mi, y cwestiwn pwysig yw pa effaith y byddai cais arbennig eich cleient yn ei gael ar gymeriad Cymreig amlwg y Bala. Dadleuai'r Awdurdod y byddai'r*

*iaith Gymraeg yn cael ei niweidio pe bai'r tai arfaethedig yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored. Yn eu barn hwy, pe bai'r tai yn cael eu cadw ar gyfer pobl leol, byddai eu deiliaid yn fwy tebygol o siarad Cymraeg. Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r ddadl hon a dywedwyd nad oedd unrhyw ffordd o wybod pa effaith y byddai gwerthu'r tai ar y farchnad agored yn ei gael ar nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Bala. Felly, nid wyf wedi fy mherswadio y byddai'r tai hyn yn debygol o gael eu prynu gan bobl ddi Gymraeg yn hytrach na chan Gymry Cymraeg nac ychwaith y byddai'r datblygiad yn andwyol i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig."*

Cafodd yr apêl ei ganiatáu.

7. Ym 1996, gwrthododd Cyngor Dosbarth Sir Drefaldwyn ganiatâd cynllunio ar gyfer 6 o dai newydd ym mhentref Meifod. Apeliodd y datblygwr. Yr oedd y Cyngor i ddechrau wedi cytuno i roi caniatâd ar yr amod y byddai'r datblygwr yn ffurfio cytundeb cyfreithiol (Adran 106) yn cyfyngu meddiannaeth 50% o'r tai (h.y. 3 tŷ) i a) siaradwyr Cymraeg, b) rhai gyda phlentyn oedd wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg am gyfnod yn ystod y 12 mis blaenorol, neu c) bod prynwyr tro cyntaf eraill yn bodloni'r meini prawf ynghylch sefydlu angen lleol. Ceisiodd y Cyngor gyfiawnhau ei benderfyniad drwy gyfeirio at bolisi newydd yn dod allan a bod, ym 1991, 41% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Daeth yr arolygydd i'r casgliad:

*"Derbyniaf fod anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol yn yr achos hwn....Mae rheolau cynllunio yn ymwneud â'r defnydd o dir yn hytrach nag â hunaniaeth y defnyddiwr...bydd y cwestiwn o bwy fydd yn meddiannu tai yng nghyswllt rhoi caniatâd i gais fel arfer yn amherthnasol...Byddai effaith polisi gan y Cyngor a fyddai'n creu marchnad gyfyngedig lle byddai cyfran o bob datblygiad tai newydd yn cael ei gwerthu i grŵp cyfyngedig o bobl ac a allai arwain at dai yn newid dwylo am brisiau is na phrisiau'r farchnad agored...yn cael ei weld i fod yn annheg a gallai rannu cymdeithas"*

Cafodd yr apêl ei ganiatáu. Yn ogystal, gorchynnodd yr arolygydd y Cyngor i dalu costau'r apeliwr oherwydd:

*"Dadleuai'r Cyngor ei bod yn amhosibl dweud yn union pa effaith a fyddai'n deillio o godi 6 o dai (ac felly)...ei fod wedi methu....â chanfod, naill ai'n ystadegol nac ychwaith drwy resymu, unrhyw risg i'r iaith a'r diwylliant Cymreig yn deillio o ganiatáu'r apêl hwn."*

8. Ym 1995, methodd Cyngor Bwrdeistref Castell Nedd â dod i benderfyniad a hefyd â chyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i godi tai ar dir yng Nghrynant. Yr oedd y Cyngor yn flaenorol wedi dyrannu'r tir i bwrpas tai ac wedi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl. Y prif fater yn yr apêl oedd a

oedd yr amodau a awgrymwyd gan y Cyngor yn briodol. Yr oedd amod 12 eisiau gohirio dechrau'r datblygiad ac unrhyw dŷ rhag cael ei feddiannu, am gyfnod penodol, er mwyn lliniaru'r effaith gymdeithasol ar y gymuned fach hon, yn benodol er mwyn osgoi cymunedau bach rhag cael eu boddi gan dwf rhy sydyn yn eu poblogaeth lle'r oedd risg y byddai hynny'n amharu'n andwyol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg. Dyma oedd sylw'r arolygydd:

*"Er bod un o'r penaethiaid ysgol yr ymgynghorodd y Cyngor â fo yn meddwl na fyddai Crynant yn gallu ymgorffori'r mewnlifiad tybiedig o newydd ddyfodiaid, nid oedd y pennaeth ysgol arall a ymgynghorwyd â fo na Chyfarwyddwr Addysg y Sir ychwaith yn rhagweld unrhyw broblemau penodol yn y cyswllt hwn. Yr wyf yn nodi bod datblygiad arall ar gyfer 20 o dai yn y pentref wedi ei ganiatáu a chyfeiriwyd at y ffaith y byddai gan safle'r apêl le i tua 30 neu fwy o dai. Pe bai'r fath nifer o dai newydd yn cael eu codi mewn amser byr, teimlaf y gallai'r effaith ar gymuned fach fel hon greu rhai problemau cymdeithasol. Fodd bynnag, y cwbl y mae'r Cyngor wedi'i awgrymu yw gohirio meddiannaeth o dai'r apêl am ddwy flynedd o ddyddiad y caniatâd cynllunio, a fyddai bellach yn dymor yr hydref 1997".*

Cafodd yr apêl ei ganiatáu.

9. Ym 2005, gwrthododd Cyngor Gwynedd ganiatâd hysbysebu i arddangos pedwar arwydd 'blwch' wedi eu goleuo'n fewnol. Prif resymau'r Cyngor dros wrthod caniatâd oedd bod testun yr arwyddion yn uniaith Saesneg, yn groes i Bolisi Strategol 5 yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd ac yn groes i gyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 20 ac y byddai, felly, yn effeithio ar fwynder a chymeriad diwylliannol yr ardal.

Daeth yr arolygydd i'r casgliad:

*"..... yn achos yr apeliadau Hysbysebu, nid yw Adran 54A Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 yn berthnasol.....yr wyf wedi ystyried yn ofalus.....a fyddai natur a thestun uniaith [Saesneg] yr arwyddion yn yr achos hwn yn cael effaith andwyol ar y nodweddion ieithyddol a diwylliannol o gwmpas cyffiniau'r siop, gan gynnwys ar ei mwynder ehangach..... Yr wyf wedi nodi.....er bod rhai arwyddion siopau / swyddfeydd (yn yr ardal) yn ddwyieithog, bod y rhan fwyaf yn uniaith Saesneg.....mae cymeriad diwylliannol presennol canol Bangor.....yn uniaith Saesneg yn unig.....ni fyddai codi'r pedwar arwydd hwn yn gwneud niwed mawr i'r cymeriad ieithyddol presennol o gwmpas y siop a'i chyffiniau ac felly ni fyddai'n andwyol i fwynder ehangach yr ardal."*

Cafodd yr apêl gan Marks & Spencer ei ganiatáu .

10. Pa gasgliadau y gallwn ddod iddynt o'r penderfyniadau apêl hyn?
- a) nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio fel yr unig reswm dros wrthod.
  - b) bod pob un o'r apeliadau, ar wahân i'r apêl hysbysebu ym Mangor ym 2005, yn ymwneud ag effaith tai newydd.
  - c) bod iaith yn aml yn cael ei chysylltu i'r effaith ar gymeriad y gymuned.
  - ch) bod maint yr effaith yn bwysig yng nghyswllt maint y pentref / cymuned.
  - d) bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno tystiolaeth defnydd tir glir a diymwad i gefnogi eu hachos.
  - dd) bod apeliadau yn gallu llwyddo ar yr amod bod cefnogaeth iddynt yn y gymuned a bod ymchwil yn cael ei chyflawni i'r patrymau newid yn y gorffennol a phwy sy'n meddiannu tai newydd yn y gymuned.

## MESURAU LLINIARU

### ENGHREIFFTIAU O FESURAU LLINIARU POSIBL

#### Tai

- Nodi'r nifer o dai a godir bob blwyddyn gam wrth gam
- Darpariaeth o dai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol
- Cytundebau i ddarparu ar gyfer pobl ar y gofrestr dai lleol

#### Cyflogaeth (pob math gan gynnwys adwerthu)

- Contractau llafur lleol
- Cefnogaeth i fentrau hyfforddi sgiliau lleol
- Darparu arwyddion dwyieithog – tu mewn a thu allan i'r sefydliad

#### Addysg

- Cefnogaeth a chyllid i gyrsiau cynefino iaith a gwersi iaith i staff, e.e. cynlluniau iaith ac unedau trochi
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer mentrau/prosiectau treftadaeth ac iaith i annog defnyddio'r iaith o fewn cymunedau
- Cefnogaeth ar gyfer darparu llefydd ysgol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer mentrau ymwybyddiaeth iaith a threftadaeth

### NODYN PWYSIG

1. Bydd nifer o'r mesurau lliniaru y bydd galw tebygol amdanynt yn dod o dan Ganllawiau'r Llywodraeth ar Ymrwymiadau Cynllunio, efallai y byddai eraill yn fwy priodol fel amodau neu ymgymeriadau unochrog. Yng ngoleuni'r newidiadau sydd ar fin cael eu gwneud i'r canllawiau ar Ymrwymiadau Cynllunio, byddai angen diwygio unrhyw waith presennol i adlewyrchu'r newidiadau hynny. Efallai'n hawdd y bydd y canllawiau newydd yn creu mwy o bosibiliadau.
2. Ar hyn o bryd, bydd unrhyw fesurau lliniaru lle mae angen defnyddio ymrwymiad cynllunio yn cael eu tywys gan gyngor bod yn rhaid i'w defnydd fod yn angenrheidiol, yn berthnasol i gynllunio, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig, yn deg a rhesymol gymesur o ran maint a math â'r datblygiad arfaethedig ac yn rhesymol ym mhob cyswllt arall.
3. Bydd yn gwbl hanfodol bod gan yr hyn a ofynnir amdano gysylltiad uniongyrchol â'r caniatâd cynllunio.



4. Bydd hefyd angen cyflwyno tystiolaeth y byddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.
5. Bydd unrhyw gyfleusterau y gofynnir amdanynt ond yn dderbyniol lle mae gan y cyfleusterau hynny gysylltiad uniongyrchol â'r cais datblygu, lle mae'r angen amdanynt yn codi o weithrediad y cais a lle maent yn gysylltiedig o ran maint a math.
6. Bydd yn bwysig sicrhau bod yr hyn a ofynnir amdano yn rhesymol ac nad yw'n gwneud y datblygiad yn anhyfyw.
7. Yn anad dim, bydd yn rhaid i ofynion lle mae angen ymrwymiad cynllunio gael eu negodi gyda'r datblygwr ac nid yn ofynnol.

## SEFYDLIADAU SY'N CYMRYD RHAN:

### **AWDURDOD / AUTHORITY**

**Welsh Assembly Government / Llywodraeth Cynulliad Cymru**

**Bwrdd Yr Iaith Gymraeg / Welsh Language Board**

**Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council**

**Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council**

**Cyngor Sir Gwynedd / Gwynedd Council**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy / Conwy County Borough Council**

**Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham / Wrexham County Borough**

**Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council**

**Cyngor Sir Powys / Powys County Council**

**Cyngor Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire County Council**

**Cyngor Castell Nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council**

**Cyngor Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil Council**

**Parc Cenedlaethol Eryri / Snowdonia National Park**

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro / Pembrokeshire Coast National Park**

**Cyngor Sir Fynwy / Monmouthshire County Council**

**City and Council of Swansea / Dinas a Sir Abertawe**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf County Borough Council**

## **AELODAETH O'R GRŴP LLYWIO:**

<b>Aneurin Phillips, Cadeirydd</b>	<b>Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</b>
<b>Jonathan Cawley, Ysgrifennydd</b>	<b>Cyngor Sir Ddinbych</b>
<b>Owain Lewis</b>	<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot</b>
<b>Bethan Lovering</b>	<b>Cyngor Sir Gaerfyrddin</b>
<b>Siobhan Wiltshire / Lesley Punter</b>	<b>Llywodraeth Cynulliad Cymru</b>
<b>Aled Davies / Cara Jones</b>	<b>Cyngor Gwynedd</b>
<b>Lynda Healey</b>	<b>Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai</b>
<b>Rhys Dafis tan 2004 / Gwenith Price a Dyfan Siôn 2004 ymlaen</b>	<b>Bwrdd yr Iaith Gymraeg</b>

## **AELODAETH O'R IS-GRŴP CYNLLUNIO:**

<b>Iwan Evans, Cadeirydd</b>	<b>Cyngor Gwynedd</b>
<b>Rhys Davies</b>	<b>Ymgynghorydd Cynllunio Annibynnol</b>
<b>Tim Ball</b>	<b>Cyngor Sir Ceredigion</b>
<b>Martin Eaglestone</b>	<b>Cyngor Sir Ynys Môn</b>
<b>Aled Davies</b>	<b>Cyngor Gwynedd</b>
<b>Eifion Bowen</b>	<b>Cyngor Sir Gaerfyrddin</b>